# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 17 Mawrth 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## 1 Sesiwn anffurfiol: Digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid - Gwasanaethau Bysiau a Threnau yng Nghymru (preifat)

(09.30-12.00)

## Egwyl ginio (12.00-12.45)

## Rhag-gyfarfod preifat (12.45-13.00)

## Cyfarfod Cyhoeddus (13.00-15.00)

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

## 3 Craffu ar waith Trafnidiaeth Cymru - sesiwn 1

(13.00-13.55) (Tudalennau 1 - 44)

James Price, Prif Weithredwr - Trafnidiaeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil - Craffu ar Trafnidiaeth Cymru

Papur - Trafnidiaeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Egwyl (13.55-14.05)

## 4 Craffu ar waith Trafnidiaeth Cymru - sesiwn 2

(14.05-15.00)

James Price, Prif Weithredwr - Trafnidiaeth Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

(15.00)

### 5.1 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2022-2023

(Tudalennau 45 - 69)

Dogfennau atodol:

Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

### 5.2 Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

(Tudalen 70)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Cadeirydd mewn perthynas â chyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd ar 9 Mawrth

### 5.3 Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 71 - 73)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Ansawdd Aer, a Chemegion a Phlaladdwyr

### 5.4 Fframweithiau Cyffredin

(Tudalennau 74 - 78)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn ymateb i lythyr y Cadeirydd dyddiedig 10 Chwefror mewn perthynas â'r wybodaeth ddiweddaraf am

Fframweithiau Cyffredin ac mewn ymateb i gwestiynau a godwyd ar y Fframwaith Cyffredin Sylweddau Ymbelydrol

**5.5 Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Sancsiynau Sifil) 2022 a Rheoliadau Deddf Ifori 2018 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) 2022**

(Tudalennau 79 - 81)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Sancsiynau Sifil) 2022 a Rheoliadau Deddf Ifori 2018 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) 2022

**5.6 Cyfoeth Naturiol Cymru - cwlfertau a ffosydd**

(Tudalennau 82 - 83)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru at y Cadeirydd mewn perthynas â chwlfertau a ffosydd

**5.7 Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru ac Ofcom**

(Tudalen 84)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip mewn perthynas â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru ac Ofcom

**5.8 Defnydd Comisiwn y Senedd o'r term BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig)**

(Tudalennau 85 - 86)

Dogfennau atodol:

Ymateb gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd i lythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2021 gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ynghylch y defnydd o'r term BAME (Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15.00)

## Cyfarfod preifat (15.00-15.30)

## 7 Trafod y dystiolaeth a gafwyd

## 8 Trafod Blaenraglen Waith y Pwyllgor

(Tudalennau 87 - 90)

Dogfennau atodol:

Papur - Blaenraglen Waith (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Trafnidiaeth Cymru

# Papur i Bwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Transport for Wales is owned by the **Welsh Government**

# Pwrpas

Pwrpas y papur hwn yw rhoi trosolwg i Bwyllgor y Senedd ar Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith o strwythur a blaenoriaethau Trafnidiaeth Cymru cyn sesiwn craffu'r Pwyllgor ar TrC ddydd Iau 17 Mawrth.

Er mwyn helpu aelodau'r Pwyllgor, bydd y papur hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- trefn lywodraethu, adnoddau a pherfformiad TrC;
- datblygiad sefydliadol TrC, gan gynnwys ei gylch gwaith datblygol (yn enwedig teithio llesol a theithio ar fysiau) a'i berthynas â chyrff sy'n darparu cynlluniau trafnidiaeth leol a rhanbarthol;
- cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys newid dulliau teithio a thargedau datgarboneiddio;
- adfer ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys cynnydd o ran cyflawni gwelliannau i wasanaethau rheilffyrdd;
- diwygio a pholisïau bysiau a threnau – gan gynnwys diwygiadau rheilffyrdd Llywodraeth y DU a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau bysiau;
- datblygu'r Metro ledled Cymru a chyflawni argymhellion Comisiwn Burns

# Trefn lywodraethu, Adnoddau a Pherfformiad TrC

Prif drefniadau llywodraethu Trafnidiaeth Cymru yw ategu'r gwaith o gyflawni ein hamcanion strategol a'r ystyriaethau gweithredol cysylltiedig, ac mae manylion am hyn ar gael yn yr adran hon.

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys Bwrdd TrC a'i bwyllgorau, y Bwrdd Llywio, y Bwrdd Gweithrediadau, y Tîm Gweithredol, a byrddau ein his-gwmnïau.

Mae holl Fyrddau cwmni TrC yn gweithredu'n unol â'r Ddeddf Cwmnïau, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (y Cod), Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol TrC a'n Matrics Awdurdod Dirprwyedig.

Wrth wneud penderfyniadau, rhaid i holl bwyllgorau a Byrddau TrC ystyried cyfrifoldebau TrC tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Deddf Cydraddoldeb (2010), a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae'n ofynnol i bob cyfarwyddwr ac aelod pwyllgor ymgyfarwyddo ag egwyddorion y ddeddfwriaeth hon.

Gan nad yw TrC yn gwmni rhestredig, mae ein cydymffurfedd â'r Cod yn wirfoddol. Rydyn ni'n cynnal adolygiadau o'n cydymffurfedd â'r Cod sy'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd ac yn cymryd y camau a argymhellir.

Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol TrC yn nodi egwyddorion llywodraethu da sy'n sail i weithgareddau Grŵp TrC ac yn amlinellu'r strwythur llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau cymaint o gysondeb ag y bo modd ar draws Grŵp TrC. Mae'r egwyddorion hyn yn seiliedig ar saith egwyddor bywyd cyhoeddus (egwyddorion Nolan). Fel Swyddog

Cyfrifyddu TrC, mae Prif Swyddog Gweithredol TrC yn atebol am weithredu'r Fframwaith hwn.

Mae'r holl gyfarwyddwyr statudol yn cwblhau datganiad chwarterol o'u buddiannau ac yn rhoi gwybod i Bennaeth Llywodraethu Corfforaethol TrC os bydd unrhyw newidiadau. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yw tynnu'n ôl o unrhyw drafodaethau lle mae ganddynt unrhyw fuddiannau a allai, neu y gellid ystyried eu bod, yn dylanwadu ar eu barn. Mae holl staff TrC yn llenwi datganiad gwrthdaro rhwng buddiannau pan fyddant yn ymuno â'r cwmni. Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru bob blwyddyn i ddangos unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau personol.

Mae pob cwmni'n cynnal ac yn adolygu Matrics Awdurdod Dirprwyedig bob blwyddyn (gydag adolygiad interim bob chwe mis), gan gynnwys materion a gedwir yn ôl. Mae cwmnïau'n cyfeirio at eu Herthyglau Cymdeithasu a chytundebau cyfranddalwyr wrth sefydlu'r cynllun dirprwyo a rheoliadau ariannol.

Mae pob bwrdd ac is-bwyllgor cwmni yn cynnal gwerthusiad blynyddol o'i berfformiad ei hun. Yn unol ag egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, cynhelir asesiad blynyddol yn fewnol, gydag adolygiad allanol bob trydedd flwyddyn. Mae'r adolygiad yn cynnwys gwerthuso cydymffurfedd ag Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni, dogfennau fframwaith, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol TrC. Dylai'r bwrdd neu'r is-bwyllgor perthnasol gael crynodeb o'r prif ganfyddiadau, y gwersi a ddysgwyd a'r camau i'w cymryd o ganlyniad i'r rheini.

**Mae Bwrdd TrC yn cynnwys:**

**Cyfarwyddwyr Anweithredol:**

- Scott Waddington - Cadeirydd
- Sarah Howells - Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer
- Alison Noon-Jones - Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Nikki Kemmery - Iechyd, Diogelwch a Llesiant
- Alun Bowen - Archwilio a Risg; Cadeirydd Pullman Rail Ltd
- Vernon Everitt - Prosiectau Mawr

**Cyfarwyddwyr Gweithredol:**

- James Price - Prif Swyddog Gweithredol a Chadeirydd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru
- Heather Clash - Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol

**Sylwedydd y bwrdd:**

- Natalie Feeley (TSSU) - cynrychiolydd undeb llafur

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu trefn lywodraethu a gweledigaeth strategol gref, gan gynnwys:

- gosod gweledigaeth, pwrpas a gwerthoedd
- pennu strategaeth a strwythur
- hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian

- dirprwyo i'r rheolwyr – gan gynnwys dal y rheolwyr i gyfrif mewn perthynas â dirprwyaethau – llywodraethu a chyflawni
- bod yn atebol i Lywodraeth Cymru fel yr unig aelod-warantwr a bod yn atebol i randdeiliaid perthnasol, gan gefnogi a chynnig her adeiladol i'r Weithrediaeth
- dal y Tîm Gweithredol i gyfrif ynghylch cyflawni'r cynllun busnes a'r elfennau allweddol i'w cyflawni yn y busnes, hynny yw, diogelwch, gwasanaeth, costau ac ati
- helpu'r tîm Gweithredol drwy gynnig cyngor a mentora i ddatblygu strategaeth fusnes a pharhau i wella perfformiad busnes
- dal Cadeiryddion Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf, i gyfrif am eu perfformiad
- sicrhau bod adnoddau digonol ar gael, a bod olyniaeth ar lefel uwch wedi ei chynllunio'n dda.

Ategir gwaith y Bwrdd gan chwe is-bwyllgor, pob un yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Dyma'r is-bwyllgorau:

- Archwilio a Risg
- Cwsmeriaid a Chyfathrebu
- Iechyd, Diogelwch a Llesiant
- Prosiectau Newid Mawr
- Pobl
- Tâl.

Ymhob is-bwyllgor mae Cyfarwyddwr Anweithredol ychwanegol ac aelodau o'r Uwch Dîm Arwain yn ogystal ag aelodau eraill o staff fel y bo'n briodol. Mae aelodaeth y Pwyllgor Pobl yn cynnwys cynrychiolydd staff.

**Ein tîm gweithredol yw:**

- James Price – Prif Swyddog Gweithredol
- David O'Leary – Cyfarwyddwr Masnachol a Phrofiad y Cwsmer
- Geoff Ogden – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
- Heather Clash – Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu
- Alexia Course – Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth
- Dan Tipper – Cyfarwyddwr Cyflenwi Seilwaith
- Leyton Powell – Cyfarwyddwr Diogelwch a Chynaliadwyedd
- Lewis Brencher – Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Lisa Yates – Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Lee Robinson – Cyfarwyddwr Datblygu'r Canolbarth, y Gogledd a Chymru Wledig
- Dave Williams – Cyfarwyddwr TG a Gwasanaethau Digidol
- Jan Chaudhry Van der Velde – Rheolwr Gyfarwyddwr, Rheilffyrdd TrC
- Marie Daly – Prif Swyddog Gweithredu, Rheilffyrdd TrC

Mae'r tîm gweithredol yn gyfrifol am y canlynol:

- rhedeg y cwmni – gan gynnwys materion Cyllid, Pobl, ac Iechyd a Diogelwch o fewn y fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno
- perfformiad a chyflawni prosiectau
- perfformiad a chyflawni busnes o ddydd i ddydd.

**Is-fyrddau'r cwmni**
Mae Rheilffyrdd TrC Cyf yn gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr TrC ac mae'n gyfrifol am gyflawni'r holl rwymedigaethau sydd wedi eu nodi yng Nghytundeb Grant OLR sy'n ymwneud â masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau rhwng Gweinidogion Cymru a Rheilffyrdd TrC. Mae bwrdd Rheilffyrdd TrC yn cael ei gadeirio gan James Price, sy'n Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer grŵp cwmnïau TrC ac yn rheolwr llinell Rheolwr Gyfarwyddwr Rheilffyrdd TrC. Mae James Price yn dal Rheolwr Gyfarwyddwr Rheilffyrdd TrC i gyfrif drwy ei rôl fel Cadeirydd ac yn adrodd i Fwrdd TrC ar y cynnydd. Mae Bwrdd TrC yn dal James Price i gyfrif am berfformiad Rheilffyrdd TrC.

Mae bwrdd Rheilffyrdd TrC hefyd yn cynnwys Heather Clash, Alexia Course, Jan Chaudhry Van de Velde (Rheolwr Gyfarwyddwr Rheilffyrdd TrC), Marie Daly (Prif Swyddog Gweithredu Rheilffyrdd TrC), a Peter Strachan fel Cyfarwyddwr Anweithredol sy'n cadeirio Pwyllgor Diogelwch y Bwrdd.

Mae Gwasanaethau Arloesi TrC Cyf yn fenter ar y cyd rhwng TrC, Amey a Keolis. Mae'r cwmni wedi cael ei sefydlu i fod yn gatalydd ar gyfer newid ac ysgogi arloesi yng ngrŵp cwmnïau ehangach TrC, gan alluogi darparu system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru a'r Gororau. Mae'r cwmni'n cael ei gadeirio gan Geoff Ogden, gydag Alexia Course, David O'Leary a Dave Williams yn cynrychioli cyfarwyddwyr a benodwyd gan TrC.

Mae Pullman Rail Ltd ym mherchnogaeth lwyr TrC ac mae'n darparu gwasanaethau peirianneg arbenigol ar gyfer cerbydau rheilffyrdd yn y DU. Mae Pullman yn parhau i weithredu fel busnes annibynnol o dan yr enw Pullman Rail Ltd. Mae eu gwaith yn parhau fel arfer, ac mae'r gwasanaethau presennol yn dal i gael eu darparu o dan frand Pullman.

**Llywodraeth Cymru/Bwrdd Llywio TrC**
Pwrpas Bwrdd Llywio TrC yw:

- cael sicrwydd gan Brif Swyddog Gweithredol TrC fel swyddog cyfrifyddu am y cyllid a ddarperir i TrC
- trafod perfformiad, ar y lefel strategol, o ran cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gyflawni eu swyddogaethau
- creu fforwm rheolaidd i hwyluso trafodaethau strategol am gyfeiriad TrC yn y dyfodol a'i gylch gwaith
- ceisio sicrwydd gan TrC ynghylch fframwaith llywodraethu'r Cwmni
- trafod materion uwchgyfeirio gan y Bwrdd Gweithrediadau

Mae'r Bwrdd Llywio yn goruchwylio TrC ac yn adrodd i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllid TrC. Mae'r Bwrdd Llywio hefyd yn cynghori Gweinidogion, yn uniongyrchol a thrwy swyddogion, ar berfformiad a chyfeiriad TrC.

Mae TrC yn cael ei gynrychioli gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae Cyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd Llywodraeth Cymru yn aelod o'r Bwrdd Llywio hefyd.

**Llywodraeth Cymru/Bwrdd Gweithrediadau TrC**
Pwrpas y Bwrdd Gweithrediadau yw:

- trafod perfformiad, ar y lefel weithredol, o ran cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gyflawni eu swyddogaethau

- trafod cynnydd ar wariant a phroffilio
- creu fforwm rheolaidd i hwyluso trafodaethau gweithredol am waith rheoli o ddydd i ddydd, gan gynnwys cyfeiriad TrC yn y dyfodol a'i gylch gwaith
- ceisio sicrwydd gan TrC ynghylch rheoli perfformiad y Cwmni ac, os oes angen, uwchgyfeirio materion a risgiau i'r Bwrdd Llywio

Mae'r Bwrdd Gweithrediadau'n darparu adroddiadau rheoli TrC i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllid TrC. Mae'r Bwrdd Gweithrediadau hefyd yn adrodd i'r Bwrdd Llywio sydd, yn ei dro, yn cynghori Gweinidogion, yn uniongyrchol a thrwy swyddogion, ar berfformiad a chyfeiriad TrC.

Cadeirir y Bwrdd Gweithrediadau gan Gyfarwyddwr Seilwaith Economaidd Llywodraeth Cymru neu ddirprwy enwebedig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cael ei chynrychioli gan uwch reolwyr allweddol yn y Gyfarwyddiaeth Seilwaith Economaidd.

**Panel Cynghori TrC**

Mae Panel Cynghori TrC yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran cwsmeriaid, y llywodraeth, y diwydiant a phobl â nodweddion gwarchodedig. Nod y Panel yw rhoi adborth, craffu a rhoi cyngor i TrC ar amrywiaeth eang o bynciau a materion, gan sicrhau ein bod yn gwrando, yn cydweithio ac yn derbyn barn yn uniongyrchol gan y grwpiau defnyddwyr a chymunedau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau.

Mae'r Panel yn cael ei gadeirio'n annibynnol ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae'n chwarae rôl fwyfwy o ran cynghori ar gynllunio a darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

**Ein perthynas â Llywodraeth Cymru**

Mae strwythurau a threfniadau llywodraethu TrC a'i berthynas â Llywodraeth Cymru wedi cael eu datblygu yn unol â'r canllawiau ar reoli cysylltiadau â phartneriaid allanol sydd ym Mhennod 7 Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ac Atodiadau 7.1 – 7.4. Mae canllawiau Swyddfa Cabinet Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar sefydlu cyrff cyhoeddus wedi cael eu hystyried hefyd.

Mae'r strwythurau a'r trefniadau llywodraethu'n golygu bod gan TrC hunaniaeth gyfreithiol glir o fewn fframwaith cadarn sydd wedi hen ennill ei blwyf, gan roi pellter clir rhyngddo a Llywodraeth Cymru a'i alluogi i wneud penderfyniadau gweithredol annibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli nodau a pherfformiad cyffredinol TrC ar lefel strategol, gan sicrhau bod y Cwmni'n gweithredu'n effeithlon ac yn parhau i weithredu er budd y cyhoedd.

Mae strwythur presennol cwmni TrC hefyd yn cynnig hyblygrwydd sylweddol rhag ofn y bydd angen addasu'r elfennau hyn yn y dyfodol. Mae'r model hefyd yn fwy cyfarwydd i'r sefydliadau masnachol y mae angen i TrC weithio'n agos â nhw.

Rhagwelir y byddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd ychwanegol a gynhyrchir gan TrC, y tu hwnt i'r rhai a ddisgwylir, ar gael i TrC eu hail-fuddsoddi yn y rhwydwaith trafnidiaeth.

Mae’n bosibl y bydd asedau, fel tir ac adeiladau, yn cael eu defnyddio i ddarparu ffrydiau incwm ychwanegol i TrC, er budd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen cytuno â Llywodraeth Cymru ar drefniadau llywodraethu i drin asedau o’r fath.

**Mesur ein perfformiad**

Fel cwmni sy’n eiddo cyhoeddus ac yn darparu gwasanaethau allweddol, mae mesur ein perfformiad yn hanfodol er mwyn i’n cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid, ein trethdalwyr a Llywodraeth Cymru allu ein dwyn ni i gyfrif. Mae angen i ni fesur ein perfformiad hefyd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus wrth ddarparu ein gwasanaethau a sut rydyn ni’n cynnal ein hunain.

Ddechrau 2021, gwnaethom gytuno â Llywodraeth Cymru ar gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol sy’n mesur perfformiad gweithredol y rheilffyrdd.

| Maes gwasanaeth | DPA | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Darparu gwasanaethau** | Amser mae Teithwyr yn ei Golli - (1) Cymru a’r Gororau; a (2) Llinellau Craidd y Cymoedd | Canran y gwasanaethau sy’n cyrraedd o fewn 3 munud i’r amser cyrraedd ar yr amserlen, gan ddefnyddio pwysoliad i leoliadau sy’n gwasanaethu ein nifer uchaf o gwsmeriaid ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae oedi mewn lleoliadau lle mae mwy o bobl yn cael mwy o effaith ar ganran yr amser mae teithwyr yn ei golli. |
| | Yr arosiadau a fethwyd | Canran y gorsafoedd lle mae 95% neu fwy o’r arosiadau sydd ar yr amserlen wedi digwydd. |
| | Llai o drenau | Nifer y gwasanaethau sy’n gweithredu o dan y capasiti sydd ei angen yn yr amserlen. |
| | Cyfanswm y gwasanaethau a gafodd eu canslo | Canran y gwasanaethau a gafodd eu canslo (dibynadwyedd gwasanaethau) ar draws y rhwydwaith. I gyd-fynd â safonau’r diwydiant a Network Rail, mae nifer y gwasanaethau a gafodd eu canslo wedi cael ei hail-gyfrifo gan gymryd 0.5 ar gyfer rhai a gafodd eu canslo’n rhannol ac 1.0 ar gyfer y rhai a gafodd eu canslo’n llwyr. |
| | Canslo gwasanaethau ymlaen llaw | Nifer y gwasanaethau a gafodd eu canslo cyn 10pm y diwrnod cyn rhoi'r gwasanaeth ar waith fel cyfran o gyfanswm y gwasanaethau a nodwyd yng Nghynllun y Dydd. |
| **Effeithiolrwydd** | Cilomedrau teithwyr | Cyfanswm y cilomedrau a deithiwyd gan deithwyr |
| | Refeniw teithwyr a thocynnau | Mae’r refeniw a enillir drwy werthu tocynnau yn cael ei alw’n Refeniw Teithwyr (er bod Incwm Tocynnau yn cael ei ddefnyddio’n gyfnewidiol ar draws y diwydiant). |
| | Cyfanswm y teithwyr a gludwyd | Cyfanswm y teithwyr â thocynnau a gludwyd ar draws y rhwydwaith. |
| **Cwsmer** | Bodlonrwydd cwsmeriaid | Sgôr boddhad cwsmeriaid gan Wavelength, adnodd sy’n gwrando, deall, mesur a gwerthuso adborth ein cwsmeriaid. |
| | Gwasanaeth o ansawdd mewn gorsafoedd | Canran yr arolygiadau sy’n pasio asesiad y Gyfundrefn Ansawdd Gwasanaeth ar draws pob gorsaf. |
| | Ansawdd gwasanaeth trenau | Canran yr arolygiadau sy’n pasio asesiad y Gyfundrefn Ansawdd Gwasanaeth ar drenau. |
| **Effeithlonrwydd costau** | Cost fesul cilomedr teithwyr | Cyfanswm cost weithredol fesul cilomedr teithwyr a deithiwyd. |
| | Cost fesul teithiwr a gludwyd | Cyfanswm cost weithredol fesul teithiwr a gludwyd. |
| | Allyriadau $NO_x$ am bob cilomedr teithwyr | Swm allyriadau gronynnau $NO_x$ a gynhyrchir gan danwydd trên yn unig am bob cilomedr teithwyr a deithiwyd. |
| | Allyriadau $CO_2$ am bob cilomedr teithwyr | Swm yr allyriadau Carbon Deuocsid a gynhyrchir gan ein gwasanaethau am bob cilomedr teithwyr a deithiwyd. |

| | | |
|---|---|---|
| **Diogelwch** | Anafiadau yn y gweithlu | Nifer yr anafiadau sy'n ymwneud ag unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan Rheilffyrdd TrC Cyf, gan gynnwys unrhyw gontractwr sy'n gwneud tasgau gwaith ar gyfer Rheilffyrdd TrC Cyf ar ei safle / trenau. |
| | Anafiadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r gweithlu | Nifer yr anafiadau sy'n ymwneud ag unrhyw berson arall, fel cwsmer, teithiwr neu aelod o'r cyhoedd. |

I gyd-fynd â'r dangosyddion hyn, rydyn ni hefyd wedi cytuno â Llywodraeth Cymru ar gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol i fesur ein perfformiad fel sefydliad ar draws meysydd cyllid, llywodraethu, pobl a gwasanaethau corfforaethol eraill:

| Dangosydd |
|---|
| Amrywiaeth yn y gweithlu staff cyfan |
| Ymgysylltiad a boddhad staff |
| Lles staff |
| Costau gwasanaethau canolog<br>• am bob aelod staff<br>• fel % cyfanswm costau |
| Cyflawni allyriadau carbon net sero ar gyfer holl weithrediadau a gwasanaethau TrC |
| Yr iaith Gymraeg<br>• seilwaith nad yw'n cydymffurfio<br>• nifer y cwynion<br>• nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg yng Ngrŵp TrC |
| Cyflawni cerrig milltir y cynllun busnes |
| Ymgynghori a chynghori<br>• gwerth am arian<br>• cymorth cadwyn gyflenwi<br>• effeithiolrwydd (fel yr adroddir gan Lywodraeth Cymru)<br>• effeithlonrwydd |

Mae ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn cael ei adrodd i'n Bwrdd ac i Lywodraeth Cymru ar ffurf cerdyn sgorio chwarterol.

Rydyn ni hefyd yn adrodd ar ein perfformiad ar lefel cyfarwyddiaeth i'n Huwch Dîm Arwain ac i'n bwrdd. Gwneir hyn drwy'r cerdyn sgorio corfforaethol a chyfres ehangach o ddangosyddion perfformiad allweddol gweithredol.

Bydd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu hadolygu drwy'r amser a'u datblygu gyda thargedau a chan gyfeirio at lefelau perfformiad cyfredol a meincnodau allanol priodol. Bydd y targedau'n dal i gael eu hadolygu a'u mireinio'n barhaus i sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy.

**Dangosyddion Cynllun Corfforaethol**
Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion pum mlynedd yn ein Hadroddiad Blynyddol a'n Datganiadau Ariannol. Mae'r rhain hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol am ein cynnydd a'n trefn lywodraethu.

Rydyn ni'n cydnabod y bydd pandemig y coronafeirws wedi newid rhesymau pobl dros deithio yn ogystal â pha mor aml maen nhw'n teithio. Rydyn ni'n gweld hwn fel cyfle i gymryd camau cadarnhaol tuag at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio trafnidiaeth a darparu rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy yng Nghymru.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi system fesur barhaus, glir ac effeithiol ar gyfer newid dulliau teithio, cyn ei rhoi ar waith yn flynyddol ac adrodd arni mewn Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn adrodd yn flynyddol ar sut rydyn ni'n darparu ar gyfer ein cwsmeriaid a phobl Cymru a'r gororau, gan gynnwys ansawdd y gwasanaeth a'r profiad rydyn ni'n ei ddarparu.

# Datblygiad sefydliadol TrC, gan gynnwys ei gylch gwaith datblygol (yn enwedig teithio llesol a theithio ar fysiau) a'i berthynas â chyrff sy'n darparu cynlluniau trafnidiaeth lleol a rhanbarthol

Mae blaenoriaethau presennol TrC mewn perthynas â theithio llesol yn ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

1. Rhoi cyngor a chymorth i dîm polisi trafnidiaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Theithio Llesol, gan gynnwys adolygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol awdurdodau lleol, datblygu polisi a strategaeth teithio llesol ac adolygu'r Ddeddf Teithio Llesol.
2. Rheoli Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
    a. Cydlynu Rhaglen y Gronfa Teithio Llesol gan gynnwys monitro cyllidebau, derbyn ac asesu hawliadau a derbyn a gwerthuso ceisiadau am gyllid.
    b. Darparu cymorth technegol ac arweiniad parhaus i awdurdodau lleol ar eu rhaglenni teithio llesol unigol mewn perthynas â dylunio, monitro a gwerthuso cynlluniau ac ymgysylltu, yn ogystal â darparu enghreifftiau o arferion gorau.
3. Datblygu'r rhwydwaith, y llwybrau a'r cyfleusterau teithio llesol, sy'n gysylltiedig â'n rhaglenni Metro.
4. Ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth llogi beiciau sydd ar gael ar draws Cymru.
5. Datblygu fframwaith monitro teithio llesol i gefnogi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.
6. Darparu arbenigedd pwnc i gydweithwyr TrC i ddatblygu prosiectau ehangach, gan gynnwys gwelliannau neu ddatblygiadau mewn gorsafoedd.
7. Gwella'r broses integreiddio rhwng teithio llesol a'r gwasanaeth rheilffyrdd drwy ddarparu cyfleusterau parcio beiciau mewn gorsafoedd a datblygu cynlluniau teithio i orsafoedd.

Mae gan TrC dîm bach ar hyn o bryd sy'n:

- Gyfrifol am ddatblygu ac arwain y gallu sy'n ganolog i ddatblygu swyddogaeth teithio llesol TrC, gan gynnwys gosod polisi a chyfeiriad strategol y sefydliad mewn perthynas â theithio llesol, rheoli'r rhaglen teithio llesol a chefnogi gweithgareddau ehangach TrC.

- Rheoli'r gweithgareddau teithio llesol sy'n gysylltiedig â Metro Gogledd Cymru, drwy ddarparu cymorth i gydweithwyr ar draws TrC, Llywodraeth Cymru a chefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu eu prosiectau teithio llesol sy'n cael eu hariannu drwy raglen y Gronfa Teithio Llesol.
- Cymorth cyffredinol ar draws cylch gwaith teithio llesol TrC ond mae ganddo gyfrifoldeb penodol dros ddatblygu'r fframwaith monitro teithio llesol, gan ddarparu mewnbwn teithio llesol i waith Uned Gyflawni Burns a datblygu'r cynigion ar gyfer llogi beiciau.
- Darparu cymorth grant a chynorthwyo i gydlynu, asesu a phrosesu ceisiadau am gyllid grant, gan gynnwys cysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod ceisiadau am gyllid a hawliadau grant yn gywir ac yn briodol.
- Mae TrC hefyd yn cael ei gefnogi gan Sustrans drwy drefniant cytundebol i ddarparu arbenigedd monitro a gwerthuso, yn ogystal â chyngor ac arweiniad i awdurdodau lleol yn ne-ddwyrain Cymru a de-orllewin a chanolbarth Cymru.

Mae cynigion y cynllun cyflenwi ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn cynnwys mwy o rôl yn cefnogi'r gwaith o ddarparu teithio llesol yng Nghymru drwy:
1. Ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar deithio llesol.
2. Datblygu pecyn ymgysylltu a hyrwyddo ar gyfer teithio llesol.
3. Datblygu adnodd blaenoriaethu i helpu awdurdodau lleol i ganfod cynlluniau a allai gynnig yr effaith fwyaf posibl.
4. Edrych ar gyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gynnig siediau beiciau ar y stryd.

Ar ben hynny, mae TrC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi cyfleoedd i wella'r gwaith o gyflawni prosiectau teithio llesol yng Nghymru, i gyflymu'r gwaith o gyflawni drwy ddatblygu prosiectau sydd ar y gweill ac i wella ansawdd y seilwaith sy'n cael ei ddarparu.

Yn ystod y camau cynnar, bydd hyn yn edrych ar gyfleoedd i sefydlu tîm rhyngddisgyblaeth canolog yn TrC i gefnogi'r capasiti presennol i ddarparu cynlluniau teithio llesol ar draws Llywodraeth Cymru (ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol) ac awdurdodau lleol (drwy eu Cynlluniau Rhwydwaith Teithio Llesol).

Bydd hyn hefyd yn galluogi TrC i chwarae mwy o ran yn y gwaith o ddatblygu'r safonau a'r canllawiau, gan ddatblygu, casglu a rhannu'r arferion gorau a'r datblygiadau arloesol, a darparu pwynt cyfeirio ar gyfer pawb sy'n datblygu cynlluniau i gael gafael ar gymorth arbenigol ar faterion dylunio penodol.

# Cyflawni Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys newid dulliau teithio a datgarboneiddio

## Strategaeth Drafnidiaeth Cymru

Yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, ymrwymwyd i gyhoeddi Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth ac i wella sut mae'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn cael ei ddefnyddio a'i roi ar waith. Mae adnoddau TrC yn arwain y gwaith o baratoi'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth ac adolygiad o'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth.

Un o ofynion pellach y Strategaeth oedd creu fframwaith gwerthuso newydd i fesur ac adrodd ar berfformiad yn flynyddol yn erbyn y strategaeth a'r cynlluniau cysylltiedig. Bydd Uned Dadansoddi TrC yn casglu ac yn cyflwyno data fel rhan o'r fframwaith monitro hwn, ac mae wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y datblygiadau technegol sydd eu hangen i gyflawni hyn.

Isod, mae crynodeb o'r prif gamau y mae TrC yn eu cymryd i gyflawni gweledigaeth y strategaeth, ac i gefnogi'r gwaith o gyflawni yn erbyn y tair 'prif' flaenoriaeth dros bum mlynedd. Er bod rhywfaint o orgyffwrdd, mae ymyriadau wedi cael eu nodi yn ôl maes blaenoriaeth y strategaeth y maent fwyaf perthnasol iddo.

**Blaenoriaeth 1: Dod â gwasanaethau i bobl er mwyn lleihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir bob dydd.**
Roedd hyn yn cynnwys datganiad pellach:

*"Byddwn yn cynllunio ymlaen llaw i sicrhau cysylltiadau ffisegol a digidol gwell, gwasanaethau mwy lleol, rhagor o weithio gartref a gweithio o bell, a mwy o deithio llesol i leihau'r angen i bobl ddefnyddio eu ceir bob dydd."*

**Gweithio o bell**
Mae TrC yn cefnogi'r targed i 30% o'r gweithlu weithio o bell yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o'n staff swyddfa wedi bod yn gweithio gartref dros y ddwy flynedd diwethaf oni bai – ac yn unol â rheolau'r cyfyngiadau symud – bod eu rôl neu eu hanghenion llesiant yn golygu bod angen iddynt fod yn y swyddfa. Fe wnaethom hefyd hwyluso gweithio o 'ganolfan' leol os oedd cyfleusterau addas yn nes at gartrefi pobl.

Wrth i ni symud oddi wrth gyfyngiadau'r pandemig, byddwn yn parhau i gefnogi mwy o bobl i weithio gartref ac o bell. Yn ein swyddfeydd newydd ym Mhontypridd, rydyn ni wedi creu canolfan gweithio o bell i hwyluso gweithwyr eraill yn y sector cyhoeddus i weithio o bell.

**Blaenoriaeth 2: Seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth sy'n hygyrch, yn gynaliadwy ac yn effeithlon**
Roedd hyn yn cynnwys datganiadau pellach:

*"Byddwn yn ceisio annog pobl i symud oddi wrth ddefnyddio ceir preifat i ddulliau trafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau. Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth carbon isel, hygyrch, effeithlon a chynaliadwy sy'n galluogi mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a cherbydau allyriadau isel."*

*"Byddwn yn darparu seilwaith trafnidiaeth sy'n ddiogel, yn hygyrch, yn cael ei gynnal a'i gadw a'i reoli'n dda. Byddwn hefyd yn sicrhau ei fod wedi'i ddiogelu at y dyfodol er mwyn addasu i newid yn yr hinsawdd a hwyluso dewisiadau trafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy. Pan fydd angen seilwaith trafnidiaeth newydd arnom, byddwn yn defnyddio'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy i lywio penderfyniadau."*

**Trafnidiaeth Integredig**

Er mwyn galluogi pobl i symud oddi wrth ddefnyddio ceir preifat i ddulliau trafnidiaeth sy'n fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau, mae angen system drafnidiaeth integredig arnom sy'n caniatáu teithiau o ddrws i ddrws gan ddefnyddio mwy nag un dull o gludo o bosibl.

Dyma brif raglenni TrC sy'n cefnogi'r gwaith o integreiddio trafnidiaeth:

- Datblygu Metro
- Datblygu rhaglen Ardal Cyfnewidfa Caerdydd Canolog
- Uned Gyflawni Burns
- Tocynnau integredig a chynllunio teithiau

**Datblygu Metro**
Mae'r rhaglenni hyn yn awyddus i integreiddio dulliau teithio yn ogystal â chefnogi datblygiad ehangach yr ardaloedd o amgylch y canolfannau trafnidiaeth. Er enghraifft, mae tîm Metro Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r prosiect Trawsnewid Trefi yn Wrecsam, gan ehangu'r gwaith ar integreiddio trafnidiaeth i ddatblygiad ehangach y dref – gan sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio i gyd yn cael eu datblygu mewn ffordd integredig, yn unol â chynlluniau datblygu ar gyfer y dref. Bydd hyn yn cynnwys lleoli gofod swyddfa ychwanegol wrth ymyl yr orsaf fel ei bod yn haws defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r gwaith.

**Datblygu rhaglen Ardal Cyfnewidfa Caerdydd Canolog**
Mae TrC wedi ymgymryd â rôl datblygu strategol ar gyfer Ardal Cyfnewidfa Caerdydd Canolog fel estyniad i'r gwaith ar Fetro de-ddwyrain Cymru. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y canlynol:

- Gorsafoedd bws newydd – rheoli'r gwaith gosod a pharatoi i weithredu
- Datblygu Gorsaf Caerdydd Canolog – rheoli rhaglen yr achos busnes llawn
- Cefnogi'r gwaith o integreiddio'r ardal yn gyffredinol â phartneriaid eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Caerdydd, Rightacres, Network Rail, yr Adran Drafnidiaeth, gweithredwyr trafnidiaeth eraill
- Datblygu strategaeth gwybodaeth a dynodi llwybrau ar gyfer yr ardal gyfnewidfa gyfan
- Datblygu modelau gweithredu ar gyfer diwrnodau digwyddiadau ar draws y gwahanol ddulliau teithio.

**Uned Gyflawni Burns**
Yn ddiweddar, bu TrC yn rheoli'r gwaith o ddatblygu opsiynau ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gyfer y ddau gynllun mawr cyntaf a gynigir.

1. Cyffordd Twnnel Hafren: Opsiynau ar gyfer integreiddio trafnidiaeth i ddarparu cysylltiadau teithio llesol a bysiau mwy effeithlon i'r orsaf reilffordd ynghyd â gwell mynediad ffyrdd lleol at gyfleusterau parcio a theithio ychwanegol.
2. Llwybrau bysiau a theithio llesol rhwng Caerdydd a Chasnewydd: Opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen â'r argymhelliad i ddarparu seilwaith newydd a chynaliadwy ar gyfer cerdded, beicio a bysiau ar yr A48 a Llwybr Beicio Cenedlaethol 88 rhwng Caerdydd a Chasnewydd.



Template Reference: TfW-PMO-TMP-ID00395 | Template Revision: 04 | Uncontrolled once printed

**Tocynnau integredig a chynllunio teithiau**

Mae TrC yn gwella pa mor hygyrch yw trafnidiaeth drwy gyfuno system docynnau, cynllunio teithiau a gwybodaeth am deithio yng Nghymru, a chreu profiad integredig i gwsmeriaid ar draws y rhwydwaith trafnidiaeth cyfan.

Drwy gyfuno gwybodaeth a chynllunio teithiau, byddwn yn creu un ffynhonnell wybodaeth effeithlon y gall cwsmeriaid ymddiried ynddi. Bydd y systemau hyn yn darparu gwybodaeth i apiau a gwefannau trydydd parti, yn ogystal ag arwyddion mewn safleoedd bysiau, gorsafoedd trenau, cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost a hysbysiadau SMS. Bydd staff yn gallu defnyddio hyn hefyd, gan ddarparu gwybodaeth well am gysylltiadau trafnidiaeth, boed hynny mewn gorsafoedd, ar drenau, neu drwy'r ganolfan gyswllt, gan sicrhau bod pob cwsmer yng Nghymru yn gallu cael gafael ar wybodaeth o'r ansawdd gorau.

Rydyn ni'n cynnwys grwpiau amrywiol o ddefnyddwyr yn y gwaith o ddylunio a datblygu ein gwasanaethau digidol yn y dyfodol. Bydd yr holl wasanaethau ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae ein cynnydd hyd yma yn cynnwys y canlynol:

- Erbyn hyn, gall cwsmeriaid brynu tocynnau sy'n cyfuno gwasanaethau Rheilffyrdd a TrawsCymru. Mae hyn wedi symleiddio'r broses o gynllunio teithiau a phrynu tocynnau rhwng de Cymru ac Aberystwyth – ac mae'n arbed amser ac arian i gwsmeriaid.

- Yn gynharach eleni, cychwynnodd cynllun peilot gyda mwy nag un gweithredwr i gyflwyno mwyafswm pris tocynnau ar gyfer gogledd-ddwyrain Cymru, a bydd treial talu-wrth-deithio yn ne-ddwyrain Cymru yn cael ei gyflwyno ar gyfer gwasanaethau trenau a bysiau rhwng Caerdydd a Chasnewydd yn ddiweddarach yn 2022.

Bydd yr hyn a ddysgir o'r treialon hyn yn sail i gynlluniau i ddatblygu opsiynau talu digyswllt, gyda thocynnau integredig ar gyfer teithiau trenau a bysiau gyda phrisiau tocynnau wedi'u cysoni ar gyfer teithiau o'r un hyd. Bydd y newidiadau i'r broses prynu tocynnau'n cynnwys talu-wrth-deithio, systemau tocynnau talu digyswllt gyda dilyswyr tocynnau 'tapio ar y dechrau a'r diwedd', i symleiddio taliadau gan ddefnyddio cardiau credyd a debyd digyswllt. Byddwn yn cyflwyno strwythurau newydd a gwell ar gyfer prisio parthau a chapio prisiau, ac yn integreiddio teithiau aml-ddull ymhellach i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng cerdded, beicio, bysiau a threnau yn haws, yn cymryd llai o amser ac yn rhatach.

Mae ein cynlluniau eraill yn cynnwys y canlynol:

- Moderneiddio a gwella'r gwaith o gynllunio teithiau yng Nghymru, gan gynnwys opsiynau fel fflecsi, llogi beiciau a chlybiau ceir. Dod ag apiau symudol a gwefannau trafnidiaeth yng Nghymru at ei gilydd fel ei bod yn hawdd i unrhyw un ddarganfod pa opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy sydd ar gael, cynllunio taith, a threfnu a thalu am gludiant. Bydd cwsmeriaid yn gallu cymharu opsiynau'n rhwydd fel cost, amser teithio, mynediad heb risiau, capasiti a chynaliadwyedd er mwyn iddynt allu gwneud y daith iawn ar gyfer eu hanghenion.

- Sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cael gafael ar y wybodaeth gywir pan fydd oedi a tharfu ar wasanaethau, gan gynnwys yr wybodaeth sydd ei hangen i ail-gynllunio eu taith (gan gynnwys drwy ddulliau teithio eraill). Bydd talu-wrth-deithio yn sicrhau bod cwsmeriaid yn cael y pris gorau ar gyfer eu taith.

- Creu Gwasanaeth Data Bysiau Cymru i roi mynediad at wybodaeth amser real am amserlenni bysiau ledled Cymru, gan gynnwys gwybodaeth amser real am unrhyw darfu ar wasanaethau.

**Rheoli Asedau a Seilwaith**

Mae'r Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, a gyflwynwyd gan Flaenoriaeth 2, yn rhoi blaenoriaeth i gynnal, rheoli ac uwchraddio ein seilwaith trafnidiaeth presennol yn ddiogel ac yn effeithlon, a'i haddasu ar gyfer newid dulliau teithio a newid yn yr hinsawdd. Lle mae angen seilwaith newydd arnom, byddwn yn mynd ati i roi mwy o flaenoriaeth i gerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau allyriadau isel iawn yn lle cerbydau modur preifat eraill.

Mae'r adolygiad ffyrdd yn rhan o ddefnyddio'r hierarchaeth hon. Mae aelod o'n tîm ar y panel adolygu, ac mae ein Huned Dadansoddi a modelu trafnidiaeth ranbarthol wedi cefnogi'r panel yn ei waith drwy adolygu 55 o gynlluniau ffyrdd arfaethedig ledled Cymru.

Mae rhan fwyaf o'n gwaith o reoli'r asedau sydd eisoes yn bodoli yn digwydd ar Linellau Craidd y Cymoedd, a ddaeth i'n gofal ni gan Network Rail tua dwy flynedd yn ôl. Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau diogelwch, daeth ein tîm rheoli seilwaith â'r holl waith 'parth coch' i ben lle'r oedd gweithwyr yn gorfod gwylio i'w rhybuddio am drenau oedd yn agosáu. Erbyn hyn, mae'r holl waith ar y traciau neu'n agos at y traciau yn cael ei wneud pan nad yw trenau'n gweithredu, gan leihau'r risg i staff.

Rydyn ni wedi datblygu system helaeth i reoli asedau, a chytunir ar ein prif raglenni cynnal a chadw ac adnewyddu gyda'n Rheolwr Seilwaith. Maen nhw'n cael eu hadolygu hefyd gan Adroddwr Annibynnol.
Mae addasu i newid yn yr hinsawdd yn fater rydyn ni'n rhoi sylw iddo ar Linellau Craidd y Cymoedd, yn enwedig mewn perthynas â pherygl llifogydd. Dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd nifer o lifogydd difrifol ar draws Cymoedd y De ac mae hyn wedi effeithio ar y rheilffyrdd hefyd. Wrth i ni ymgymryd â'r gwaith o drawsnewid y Metro, rydyn ni'n mynd i'r afael â'r risg o lifogydd drwy edrych ar fesurau ataliol, er enghraifft drwy ddraenio a chwlfertau.

Drwy ein gwaith cynllunio ar gyfer cynnal a chadw a rheoli asedau, rydyn ni'n edrych ar y posibilrwydd y bydd gwaddodion afonydd ar strwythurau a'r camau sydd eu hangen i liniaru hynny, ac yn sicrhau bod draeniau a chyrsiau dŵr yn cael eu cadw'n glir. Mae tirlithriadau yn fater arall rydyn ni'n ei reoli sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Os ydym yn gwybod am risgiau, mae gennym brosesau monitro ar waith

Mae ein Cynllun Addasu ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd wrthi'n cael ei gwblhau, a bydd yn cael ei gyhoeddi erbyn mis Mehefin 2022.

**Cerdded a Beicio**

Mae TrC wedi bod yn ehangu ein rôl mewn Teithio Llesol ym meysydd rheoli a gwerthuso dyraniadau cyllid y grant Teithio Llesol ac yn cefnogi Llywodraeth Cymru i adolygu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol.

Mae cerdded a beicio yn ystyriaeth allweddol yn ein holl brosiectau, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

- Yn ein gorsafoedd rheilffordd, mae gennym raglen barhaus o wella ansawdd a chapasiti cyfleusterau storio beiciau. Bydd cyfleusterau gwell ar gyfer storio beiciau ar ein trenau newydd hefyd.
- Drwy ein rhaglenni Metro, rydyn ni'n gweithio ar gynlluniau rhwydwaith teithio llesol mewn gorsafoedd a fydd yn gwella mynediad cerddwyr a beicwyr i orsafoedd rheilffordd, yn ogystal hefyd â gwella sut gall pobl gysylltu â mathau eraill o drafnidiaeth gynaliadwy o'r orsaf drenau drwy gerdded neu feicio.
- Yn ein swyddfeydd newydd ym Mhontypridd, mae gennym ardal ddiogel iawn ar gyfer storio beiciau dan do, gyda standiau cynnal, a phwyntiau gwefru ar gyfer beiciau trydan. Mae loceri storio a chyfleusterau cawod ar gael hefyd i bobl os oes eu hangen arnynt.

**Rheilffyrdd**

Mae gan ein tîm rheilffyrdd raglen helaeth i wella ein gwasanaethau rheilffyrdd. Erbyn 2025 rydyn ni'n bwriadu rhedeg tua 30% yn fwy o wasanaethau na'r hyn a oedd yn gweithredu yn 2018. Ar ben hynny, bydd y gwasanaethau hyn yn defnyddio £800m o gerbydau newydd, mwy hygyrch a mwy effeithlon a chynaliadwy. Bydd oddeutu 95% o'r holl deithiau ar drenau newydd, a bydd dros hanner y rhain wedi cael eu cydosod yng Nghymru.

Er bod ein trenau newydd yn lanach, rydyn ni wedi datblygu strategaeth i ddatgarboneiddio'r fflyd er mwyn manteisio ar drydaneiddio pellach ar y rhwydwaith a newidiadau eraill mewn technoleg.

Ar wahân i'r fflyd, rydyn ni'n cynnal nifer o brosiectau i wneud gwasanaethau rheilffyrdd yn fwy deniadol ac i wella pa mor hygyrch a chynaliadwy ydyn nhw. Y prosiect mwyaf o blith y rhain yw gwaith trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae ein defnydd o drydaneiddio clyfar yma wedi lleihau cost y trydaneiddio'n sylweddol, ac mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu gweithredu ar bŵer trydan a batri ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd. Ni fyddai wedi bod yn fforddiadwy gyda thrydaneiddio traddodiadol.

Mae rhaglen Llinellau Craidd y Cymoedd hefyd yn cynnwys gwelliannau sylweddol o ran hygyrchedd, gyda 13 o bontydd troed newydd gyda ramp ac 8 lifft newydd yn cael eu gosod. Bydd ein holl drenau a'n platfformau ar Linellau Craidd y Cymoedd yn cynnig mynediad gwastad sy'n golygu nad oes unrhyw gam rhwng y platfform a'r trên neu'r trên tram. Rydyn ni'n gwella nifer o nodweddion eraill gan gynnwys diogelwch gyda dros 200 o gamerâu teledu cylch cyfyng newydd, a chynaliadwyedd drwy oleuadau LED.

Rydyn ni hefyd yn gwella gorsafoedd ledled Cymru gyda gwell cyfleusterau i gwsmeriaid, gan eu gwneud yn fwy hygyrch ac yn fwy cynaliadwy.
Rydyn ni hefyd yn rheoli'r gwaith o adeiladu dwy orsaf reilffordd newydd; mae un ar agor erbyn hyn yn Bow Street a'r llall wrthi'n cael ei chynllunio yn Sanclêr. Mae hygyrchedd a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried ar gyfer y cyfleusterau trafnidiaeth newydd hyn, ac

mae Tîm Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio ar lwybrau cerdded a beicio newydd i'w cyd-ddefnyddio ar hyd y cefnffyrdd sy'n arwain at y gorsafoedd hyn.

**Bysiau**
Mae ein rôl yn y sector bysiau wedi newid ers ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros reoli TrawsCymru a datblygu ardaloedd peilot fflecsi.

Mae ein tîm hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu'r rhaglen diwygio bysiau ac yn rhoi cefnogaeth yn sgil effeithiau opsiynau polisi ynghylch Prisiau Teg.

**Cerbydau trydan**
Mae Strategaeth Gwefru Ceir Trydan yn un o flaenoriaethau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.  Mae'n nodi'r angen am gynnydd sylweddol mewn gwahanol fathau o bwyntiau gwefru erbyn 2030, ac mae TrC yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r nodau hyn. Fe wnaethom ddarparu'r cyntaf o 18 pwynt gwefru cyflym yn y Bala, Gwynedd yn 2021, gydag eraill yn dilyn yn y lleoliadau mwyaf gwledig yng Nghymru i fynd i'r afael â'r bylchau mawr yn y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.

Rydyn ni hefyd yn darparu pwyntiau gwefru mewn dros 100 o feysydd parcio gorsafoedd yng Nghymru, gan ddechrau gyda Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gefnogi'r broses o drawsnewid i gerbydau trydan ond gan wneud teithio aml-ddull yn fwy deniadol hefyd. Rydyn ni hefyd yn llunio cynlluniau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a'r sector cyhoeddus yn ehangach i ddarparu arbenigedd, cyngor a chymorth i ddarparu pwyntiau gwefru ychwanegol i ymwelwyr, gweithwyr a phreswylwyr awdurdodau lleol.

**Blaenoriaeth 3: Annog pobl i newid i drafnidiaeth fwy cynaliadwy.**
Roedd hyn yn cynnwys datganiadau pellach:

*"Byddwn yn annog pobl i newid eu hymddygiad o ran teithio i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy, carbon isel."*

*"Byddwn yn gwneud hyn drwy wneud trafnidiaeth gynaliadwy yn fwy deniadol a mwy fforddiadwy, a thrwy fabwysiadu datblygiadau arloesol sy'n ei gwneud yn haws ei defnyddio."*

**Newid mewn ymddygiad**
Mae ein cynlluniau i adfer ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn rhoi manylion ynghylch sut rydyn ni'n mynd i ddenu teithwyr yn ôl ar ôl y pandemig.  Byddwn hefyd yn defnyddio ein profiad o ymgyrchoedd llwyddiannus cyn y pandemig i roi hwb i nifer y teithwyr a'r gyfran ym mhob dull teithio gydag ymgyrchoedd trafnidiaeth gyhoeddus aml-ddull.
Rydyn ni'n cefnogi Llywodraeth Cymru i dreialu a chyflwyno cynlluniau ar gyfer gosod terfyn cyflymder safonol diofyn o 20mya mewn ardaloedd preswyl.  Rydyn ni wedi bod yn monitro ac yn dadansoddi data o'r wyth safle peilot a fydd yn sail i'r gweithredu cyffredinol – er mwyn sicrhau'r effeithiau cadarnhaol gorau posibl ac osgoi canlyniadau anfwriadol.

**Gwasanaethau Atyniadol**
Bydd y buddsoddiadau yn ein gwasanaethau rheilffyrdd yn eu gwneud yn fwy deniadol.  Elfen bwerus arall sy'n gwneud ein gwasanaethau'n ddeniadol yw ein tîm ni.  Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn eu hyfforddiant mewn gwasanaeth i gwsmeriaid, ac yn


Template Reference: TfW-PMO-TMP-ID00395 | Template Revision: 04 | Uncontrolled once printed

cynnig hyfforddiant yn y Gymraeg i'r rheini sydd eisiau hynny, gan eu bod yn aml yn gallu newid y ffordd y mae pobl yn teimlo am ein gwasanaethau. Rydyn ni wedi bod yn defnyddio'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu wrth ddatblygu'r gwasanaethau fflecsi gan fod mwy fyth o ryngweithio â'n tîm yn aml ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau hyn.

Mae holl raglen Llinellau Craidd y Cymoedd yn ymwneud â chefnogi newid dulliau teithio gyda chynnydd mawr mewn capasiti, gyda mwy o seddi ar gael, yn ystod y cyfnod prysuraf a dyblu'n gyffredinol pa mor aml y darperir gwasanaethau, trenau cynharach a hwyrach, a mwy o wasanaethau ar ddydd Sul. Mae gwella amseroedd teithio yn elfen bwysig o wneud gwasanaethau'n fwy deniadol. Bydd ein gwaith ar Linellau Craidd y Cymoedd yn lleihau amseroedd teithio o Flaenau'r Cymoedd i Gaerdydd ac yn ôl tua 15% ar gyfartaledd. Mae ein rhaglenni Metro hefyd yn gweithio ar goridorau bysiau cyflym i wneud gwasanaethau bysiau'n fwy deniadol o'u cymharu â theithio mewn ceir preifat.

**Gwasanaethau Fforddiadwy**
O ran ein gwasanaethau rheilffyrdd, rydyn ni eisoes wedi mynd i'r afael â rhai anghysondebau mewn strwythurau prisiau drwy rannu parthau prisiau ar rwydwaith y cymoedd. Rydyn ni hefyd yn datblygu atebion cynllunio teithiau a thocynnau integredig aml-ddull (fel y disgrifir uchod). Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod teithwyr yn gallu bod yn hyderus y byddant yn cael y pris gorau am y teithiau ar unrhyw ddiwrnod.

Rydyn ni'n darparu cymorth i ddatblygu polisi Prisiau Llywodraeth Cymru. Mae ein tîm yn darparu data a dadansoddiadau ategol ar draws dulliau teithio er mwyn helpu i sicrhau bod yr effaith bosibl rhwng dulliau yn cael ei deall ac nad yw hyn yn effeithio er gwaeth ar wahanol grwpiau defnyddwyr.

**Newid dulliau teithio a thargedau datgarboneiddio**
Mae Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn gosod targed newid dulliau teithio sef bod 45% o deithiau i gael eu gwneud ar drafnidiaeth gyhoeddus, wrth gerdded neu feicio erbyn 2040. Mae Cymru Sero Net yn gosod uchelgais hanner ffordd i gyrraedd 40% erbyn 2030 ac uchelgais arall o 48% erbyn 2040.

Mae Sero Net Cymru yn dadansoddi'r targedau hyn ymhellach fel a ganlyn:

| **Amserlen** | **Cyfanswm teithiau targed ar drafnidiaeth gyhoeddus, wrth gerdded neu feicio** | *Yn cynnwys teithio llesol* | *Yn cynnwys trafnidiaeth gyhoeddus* |
|---|---|---|---|
| Erbyn 2019 | 32% | *27%* | *5%* |
| Erbyn 2030 | 40% | *33%* | *7%* |
| Erbyn 2040 | 48% | *35%* | *13%* |

Mae Sero Net Cymru hefyd wedi gosod targedau i leihau allyriadau o drafnidiaeth teithwyr, gan gynnwys:

- Lleihau allyriadau o drafnidiaeth teithwyr 21% yn 2025 o'i gymharu â lefelau 2019.

- Cynyddu effeithlonrwydd cludo nwyddau ar y ffyrdd, y rheilffyrdd a'r môr 4% yn 2025 o'i gymharu â lefelau 2019.
- Lleihau 10% ar y milltiroedd car a deithir gan bob person erbyn 2030 drwy newid dulliau teithio a lleihau galw.

Mae TrC yn cydnabod brys yr argyfwng hinsawdd, ac rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei dyheadau o ran sero net.

Mae dros 3 miliwn o bobl yn dibynnu ar seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi addo lleihau allyriadau o drafnidiaeth teithwyr 98% erbyn 2050 drwy leihau'r galw, newid dulliau teithio a mabwysiadu technolegau carbon isel.

Ar wahân i'r targed cyffredinol o sero net erbyn 2050, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais arall i alluogi'r sector cyhoeddus yng Nghymru i fod yn sero net ar y cyd erbyn 2030. Mae'r targed hwn yn cynnwys dros 780 o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i bobl Cymru. Fel corff sector cyhoeddus, mae TrC wedi'i gynnwys yn y targed hwn ac mae'n rhaid iddo ddatgarboneiddio er mwyn cyflawni'r nod ar y cyd.

Mae TrC yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu hyn. Fodd bynnag, er mwyn datgarboneiddio allyriadau'r sector trafnidiaeth ymhellach yng Nghymru, mae angen i TrC roi mesurau ar waith i leihau carbon ar draws ei rwydwaith a'i weithrediadau, ac rydyn ni wedi gwneud yr ymrwymiadau canlynol:

- Rydyn ni wedi ymrwymo i darged o allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 sero net erbyn 2030
- Byddwn yn lleihau'r allyriadau o'n gweithgareddau Cwmpas 3 50% erbyn 2040
- Bydd ein rhwydwaith a'n gweithrediadau cyfan yn cynhyrchu allyriadau sero net erbyn 2050.

## Adfer ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys cynnydd o ran cyflawni gwelliannau i wasanaethau rheilffyrdd

Ers dechrau pandemig COVID, mae'r sefyllfa wedi cael effaith sylweddol ar y galw a'r refeniw ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau.

Rydyn ni'n rhagweld y bydd ychydig dros 17 miliwn o deithiau teithwyr wedi cael eu cwblhau ar ein rhwydwaith rheilffyrdd yn ystod y flwyddyn rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, ychydig dros hanner y nifer blynyddol a welwyd cyn dechrau pandemig Covid.

Er bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn frith o newidiadau i reoliadau teithio a mwy o gyfyngiadau – yn enwedig wrth i'r amrywiolyn Omicron gyrraedd ddiwedd 2021 – mae ein holl farchnadoedd teithio yn dal i adfer.

- Yn gyffredinol, teithio at ddibenion hamdden ar y rhwydwaith sydd wedi adfer gyflymaf – ac yn enwedig gyda chyfyngiadau o ran teithio'n rhyngwladol a'r profiad o gael 'gwyliau gartref' yn ystod haf 2021.



Template Reference: TfW-PMO-TMP-ID00395 | Template Revision: 04 | Uncontrolled once printed

- Mae'r marchnadoedd cymudo a theithio busnes yn dal yn wannach wrth i fusnesau a chymudwyr barhau i ddefnyddio fideo-gynadledda a thechnolegau eraill, yn hytrach na theithio i gwrdd wyneb yn wyneb.

Yr hyn sydd wedi dod yn amlwg yw bod y ffordd mae pobl yn defnyddio ein rhwydwaith a phwrpas eu taith yn debygol o fod yn wahanol yn y dyfodol i'r ffordd roedden nhw wedi teithio cyn pandemig Covid.

Mae llawer o'r hyn roedd pobl yn ei wneud a'r ffordd roedden nhw'n ymddwyn yn ystod y pandemig yn debygol o barhau – er enghraifft, gweithio gartref, ac mae disgwyl gweld trefniant gweithio mwy hybrid gan lawer o gyflogwyr.

Er y bydd y farchnad fusnes a chymudwyr yng Nghymru yn parhau i fod yn un bwysig i'w gwasanaethu, rydyn ni'n disgwyl gweld efallai na fydd tueddiad unigol pobl i deithio yn dychwelyd i lefelau cyn Covid wrth ystyried rhai o'r newidiadau parhaol posibl a welir yn ymddygiad teithwyr. Rydyn ni'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgais hirdymor i weld oddeutu 30% o weithwyr Cymru yn gweithio gartref neu'n agos at eu cartrefi, a byddwn yn parhau i weithio gyda hyn mewn golwg. Yn ein marchnadoedd Metro, er enghraifft, ar sail y data cyfredol, gallai'r farchnad gymudwyr gynrychioli 34% o deithwyr yn y dyfodol, o'i gymharu â 48% cyn Covid.

- Yn hanesyddol, mae teithio busnes a chymudwyr wedi bod yn gogwyddo tuag at deithio o fewn oriau swyddfa arferol rhwng 9 a 5 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd gostyngiad parhaol yn y galw yn ystod yr oriau teithio hynny yn debygol o arwain at newidiadau yn y ffordd rydyn ni'n gwasanaethu'r galw hwnnw ac yn defnyddio ein hadnoddau.
  Fodd bynnag, rydyn ni'n disgwyl y bydd cyfran y cwsmeriaid sy'n teithio at ddibenion hamdden yn cynyddu, gyda mwy o alw yn ystod cyfnodau 'tawelach' traddodiadol y dydd. Er enghraifft, mae disgwyl i'n llwybrau 'Rhyngdrefol' pellter hirach weld 70% o deithwyr yn teithio at ddibenion hamdden yn y dyfodol, o'i gymharu â 55% cyn y pandemig.
- Yn draddodiadol, mae'r farchnad hamdden yn un fywiog yn ystod tymor yr haf, tymor y Nadolig ac yn gyffredinol ar adegau sydd ddim yn ystod tymor yr ysgol. Bydd gwasanaethu mwy o alw yn ystod yr adegau hyn yn debygol o arwain at yr angen i newid y ffordd rydyn ni'n gwasanaethu'r galw hwnnw ac yn defnyddio ein hadnoddau.
- Mae angen i ni hefyd ystyried y bydd y farchnad 'hamdden leol' – yn enwedig teithio gyda'r nos neu bellter byr ar benwythnosau – yn parhau i fod yn un lle gall ac y dylai'r rheilffyrdd chwarae rhan allweddol, yn enwedig wrth ystyried ein huchelgeisiau i leihau carbon yng Nghymru.

Wrth gwrs, mae'n bwysig cofio bod rhwydwaith rheilffyrdd Cymru yn amrywiol ac yn cyflawni ystod o swyddogaethau ar gyfer pobl o'i mewn – yn ogystal ag ar gyfer pobl sy'n teithio i mewn ac allan o'r wlad. Felly, byddwn yn parhau i ymchwilio i'n marchnadoedd ac yn cysylltu â'n cwsmeriaid i ddeall y tueddiadau cynyddol o ran teithio.

Rydyn ni hefyd wedi gweld newidiadau sylweddol yn y ffyrdd y mae pobl yn dewis rhyngweithio â ni ar ein rhwydwaith, gyda symudiad tuag at fwy o ryngweithio a thrafod digidol yn hytrach na rhyngweithio personol mwy traddodiadol.

- Mae canran y cwsmeriaid sy'n dewis prynu tocynnau drwy ein swyddfeydd tocynnau wedi gostwng 30% a mwy ers 2019, gyda llai na 10% o'r gwerthiannau bellach yn mynd drwy'r lleoliadau hyn.
- Ar y llaw arall, mae cwsmeriaid sy'n dewis prynu eu tocynnau drwy sianeli digidol wedi cynyddu 70% a mwy ers 2019, gyda dros 50% o'r gwerthiant nawr yn digwydd drwy wahanol sianeli ar-lein.

Er bod symud o ddulliau prynu mwy traddodiadol at sianeli digidol wedi bod yn duedd barhaus dros y 10 mlynedd diwethaf, mae hyn yn sicr wedi cael ei gyflymu ers dechrau Covid yn 2020.

Ochr yn ochr â'r tueddiadau hyn, mae defnyddio arian parod fel dull talu hefyd wedi lleihau'n sylweddol, gyda dim ond 10% o'r gwerthiannau (7% ar ein llwybrau pellter hirach) bellach yn cael eu talu ag arian parod, o'i gymharu â 49% yn 2009/10. Mae'r duedd hon yn dal yn bwysig i ni ei chydnabod a'i hystyried wrth i ni barhau i ddatblygu ein gwasanaethau manwerthu i gwsmeriaid.

**Camau tuag at adfer**
Mae'r newidiadau sylweddol iawn hyn i anghenion cwsmeriaid, newidiadau i'n marchnadoedd a'r ffordd mae pobl yn defnyddio ein rhwydwaith yn gofyn i ni gymryd camau tuag at addasu ein rhwydwaith ar gyfer y dyfodol. Bydd llawer o'r newid hwn yn cael ei alluogi gan y gwaith parhaus o drawsnewid rheilffyrdd yng Nghymru a'r rhanbarthau ar y ffin, a ddechreuwyd yn 2018 ac a fydd yn cael ei wireddu dros y blynyddoedd nesaf.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn buddsoddi i'w gwneud hi'n haws ac yn symlach i deithio ar ein rhwydwaith, integreiddio ein gwasanaethau i alluogi teithiau aml-ddull, a gwella'r hyn a gynigiwn i gwsmeriaid.

- **Gwella ein prif lwybrau -** Gan gydnabod pwysigrwydd y llwybr rhwng Manceinion a Chaerdydd i'n cwsmeriaid a'r economi sy'n dod i mewn i Gymru, ym mis Rhagfyr 2022 byddwn yn cyflwyno trenau sy'n cael eu tynnu gan locomotif ac wedi'u hadnewyddu ar wasanaethau allweddol, gan wella capasiti ac ansawdd profiad i gwsmeriaid yn sylweddol.
- **Teithio Cynaliadwy a Thwristiaeth -** Wrth i Gymru adfer yn sgil COVID, rydyn ni wedi gweld twf cyflym mewn teithio hamdden. Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y farchnad hon, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector twristiaeth i sicrhau ein bod yn cynllunio ac yn darparu ein gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion. Rydyn ni'n datblygu strategaeth Teithio Cynaliadwy ar gyfer y llwybrau hyn ac yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector twristiaeth.
- **Integreiddio ein Rhwydwaith Trafnidiaeth -** Mae gan drafnidiaeth gyhoeddus rôl ganolog i'w chwarae yng Nghymru wrth i ni symud tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd a sicrhau ein bod yn cadw anghenion cenedlaethau'r dyfodol mewn cof. Bydd angen i bob un ohonom newid ein hymddygiad a gwneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy yn y blynyddoedd i ddod.
- Rydyn ni'n parhau i ddatblygu'r gwaith o integreiddio trafnidiaeth rheilffyrdd a bysiau yng Nghymru. Ddiwedd 2021, gwnaethom gwblhau'r gwaith o integreiddio llwybrau Traws Cymru T1 a T5 rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth, gan eu hintegreiddio â'n

gwasanaethau rheilffyrdd a system docynnau. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwnnw yn 2022 gydag uchelgais i integreiddio rhwydwaith cyfan Traws Cymru gyda'r rhwydwaith rheilffyrdd.

- **Tocynnau talu wrth deithio ar Metro De-ddwyrain Cymru** - Rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein cynllun tocynnau digyswllt integredig ar gyfer rheilffyrdd a bysiau ar Metro De-ddwyrain Cymru, gyda'r treialon cyntaf yn dechrau yn nes ymlaen yn 2022. Gyda'r bwriad o dargedu'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth, bydd hyn yn cynnig mynediad hawdd at deithio gan warantu prisiau wythnosol a dyddiol sy'n rhoi'r gwerth gorau. Bydd yn cael ei dargedu'n benodol er mwyn denu'r rheini nad ydynt yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel rhan o gyflawni targedau ehangach i newid dulliau teithio a lleihau carbon, drwy ei gwneud yn haws ac yn symlach teithio ar draws gwahanol fathau o ddulliau teithio.

- **Gwerthu drwy Fentrau Bach a Chanolig -** Fe wnaethom lansio cynllun peilot 12 mis ar gyfer Metro De-ddwyrain Cymru i werthu tocynnau trên mewn 90 o siopau hwylus lleol ym mis Ionawr. Dyma'r tro cyntaf i'r diwydiant wneud hyn ym Mhrydain, a bydd y fenter hon yn golygu bod modd gwerthu tocynnau trên mewn siopau hwylus lleol. Bydd hyn yn caniatáu i ni weithio gyda llawer o fanwerthwyr bach a chanolig i ddarparu rhagor o wasanaethau i'w cymunedau.

**Ymgyrch adfer aml-ddull TrC**
Dechrau **annog newid ymddygiad** ac annog pobl i ystyried defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle'r car yn unol â'r targedau i newid dulliau teithio a datgarboneiddio.

**Cynnig ar gyfer yr ymgyrch**
Rydyn ni wedi datblygu cynnig ar gyfer ymgyrch sy'n seiliedig ar wybodaeth y gellir ei defnyddio ar draws gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol er mwyn annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i wneud siwrneiau cyflawn.

Mae ein cynnig yn canolbwyntio i ddechrau ar annog pobl i:
- **Ailddarganfod** llefydd nad ydyn nhw wedi ymweld â nhw'n ddiweddar
- **Ailgysylltu** â phobl nad ydyn nhw wedi'u gweld yn iawn ers i'r pandemig ddechrau
- **Dychwelyd (i weithio)** Er, i ffordd o weithio fwy cytbwys.

Fe wnaethom ddatblygu matrics negeseuon aml-ddull cynhwysfawr i gefnogi ein hymgyrch a oedd yn amlinellu'r rhwystrau rhag defnyddio, y cynulleidfaoedd yr effeithir arnynt, yr egwyddor Hawdd, Deniadol, Cymdeithasol ac Amserol (**EAST - Easy, Attractive, Social and Timely)**, ymyriadau a gafodd eu hargymell yn ogystal â negeseuon allweddol a galwadau i weithredu.

Gan weithio gydag arbenigwr gwybodaeth am ymddygiad, aethom ati i fireinio ein negeseuon marchnata i greu rhestr gynhwysfawr o opsiynau a'i phrofi gyda dros 3,600 o bobl.

Yn ein profion, gwelsom fod pedair neges wybodaeth allweddol ynghylch ymddygiad sy'n ganolog i'n cyfathrebu.

Drwy gael mwy o ymgysylltu emosiynol â brand dibynadwy, rydyn ni'n gobeithio mai TrC fydd dewis gorau pobl ar gyfer cynllunio teithiau, prynu tocynnau a theithio.

**Rhoi ymgyrch ar waith fesul cam.**
Bydd ein hymgyrch adfer yn cael ei lansio ar 28 Mawrth 2022. Bydd yn cynnwys cymysgedd o hysbysebion teledu sy'n cael eu harwain gan frand, cyfryngau cymdeithasol am dâl ac yn organig, hysbysebu y tu allan i'r cartref, a gweithgarwch cysylltiadau â'r cyfryngau.

Mae hysbyseb un munud ar y teledu yn angori ein hymgyrch tra bydd nifer sylweddol o oedolion Cymraeg a Saesneg eu hiaith yng Nghymru yn gweld ein bod yn noddi ITV Cymru Wales am flwyddyn.

Bydd ein hymgyrch yn cael ei rhoi ar waith mewn sawl cam dros ddeunaw mis.

**Cyd-fynd ag uchelgais polisi tymor hir Llywodraeth Cymru**
Mae ein huchelgais ar gyfer ein brand a'n hymgyrchoedd yn cyd-fynd ag uchelgais polisi ehangach a hirdymor Llywodraeth Cymru. Mae'r uchelgais i greu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n cysylltu pobl a chymunedau yn sail i ddatblygu cynaliadwy ac yn galluogi twf economaidd.

Bydd gwell gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn arwain at fuddion gwirioneddol i bobl, yn cynnwys gwell mynediad at gyfleoedd gwaith, ac yn integreiddio gwasanaethau fel addysg ac iechyd yn well â'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus.

**Effaith a gwerth am arian**
Rydyn ni wedi dyfeisio'r dull gweithredu unedig hwn sy'n strategol gyson ar gyfer ein cyfathrebiadau marchnata ar draws gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol er mwyn cael mwy o effaith o ran newid ymddygiad a sicrhau gwell gwerth am arian cyhoeddus drwy farchnata mwy effeithiol. Bydd datblygu ein brand yn ein galluogi i dargedu ein hymgyrchoedd tactegol yn well.

## Diwygio a pholisïau bysiau a threnau – gan gynnwys diwygiadau rheilffyrdd Llywodraeth y DU a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau bysiau

Mae TrC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio'r fflyd fysiau, gan gynnwys bysiau Traws Cymru erbyn 2026, yn ogystal ag ystyried sut mae mynd i'r afael â heriau hinsawdd ehangach, gan gynnwys bioamrywiaeth ac addasu i'r hinsawdd.

Mae'r Argyfwng Hinsawdd yn galw am weithredu ar fyrder. Drwy gyfrwng Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 Llywodraeth Cymru, nododd Llywodraeth Cymru beth oedd maint yr her hon a'r angen i ymateb yn gyflym, gan dynnu sylw at yr angen am ddegawd o weithredu i wneud mwy o gynnydd dros y 10 mlynedd nesaf na'r hyn rydym wedi'i wneud yn y 30 mlynedd diwethaf.

Mae Cymru Sero Net a Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 yn pwysleisio'r angen i newid y ffordd rydyn ni'n teithio. Mae angen llai o geir ar ein ffyrdd a


Template Reference: TfW-PMO-TMP-ID00395 | Template Revision: 04 | Uncontrolled once printed

mwy o bobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn cerdded neu'n beicio. Mae angen i ni weithio gyda phobl ar draws Cymru i gynllunio system drafnidiaeth sy'n gweithio i bawb ac sy'n cynnig ffordd arall o deithio yn hytrach na dibynnu ar gar. Mae hyn yn hanfodol i'n targedau datgarboneiddio ond hefyd i sicrhau bod opsiynau trafnidiaeth fforddiadwy ar gael i bobl lle gallai cost prynu neu brydlesu car trydan newydd fod yn rhy uchel.

Felly, mae bysiau'n rhan hanfodol o'r weledigaeth hon, ond nid yw'r system bresennol, sydd wedi'i dadreoleiddio, wedi gallu cyflawni'r newid yn ddigon cyflym nac o ran graddfa, sy'n angenrheidiol i ni ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd. Gyda 3 o bob 4 siwrnai ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei gwneud ar fysiau lleol[1], rhaid i ni ddatblygu a chynnal rhwydwaith bysiau sy'n gallu cyflawni'r raddfa angenrheidiol o newid. Hefyd, nid oes car mewn oddeutu 13% o gartrefi yng Nghymru[2], ac mae 25% o ddefnyddwyr bysiau yn anabl neu â salwch tymor hir[3].

Yn y bôn, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i greu system fysiau gyda theithwyr yn ganolbwynt iddi - system sy'n hawdd cael mynediad iddi, gyda digon o rwydweithiau dibynadwy a chyson, un system docynnau, ac sy'n hawdd ei deall a'i defnyddio – yn syml iawn: 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn'. Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau system fysiau sy'n hybu cydraddoldeb cymdeithasol ac sy'n gallu cyflawni newid mewn dulliau teithio ar y raddfa sy'n ofynnol yn sgil yr Argyfwng Hinsawdd.

Mae'r weledigaeth a nodir uchod yn gofyn am drawsnewid y ffordd y rheolir bysiau yng Nghymru i gyflawni'r nodau cyffredinol canlynol:

- System fysiau sydd wedi'i chynllunio'n bwrpasol i sicrhau'r budd gorau posibl i'r cyhoedd.
- System fysiau sy'n defnyddio buddsoddiad cyhoeddus yn effeithlon i fynd i'r afael yn strategol â blaenoriaethau cyhoeddus ar gyfer gwella bysiau, a thrwy hynny gyfiawnhau mwy o fuddsoddiad cyhoeddus.
- System fysiau, sy'n rhan o rwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n darparu dewis teithio rhagorol, lle bynnag y mae ei angen ar bobl, pryd bynnag y bydd ei angen arnynt, ledled Cymru.

Rydyn ni hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar wella defnydd o fysiau i gysylltu cymunedau gwledig, fel;

- Gweithio gydag Awdurdodau Lleol a rhanbarthau i ddatblygu eu rhwydweithiau bysiau yn y dyfodol yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i greu un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn
- Datblygu a thwf y gwasanaeth Fflecsi
- Datblygu, twf a gwella'r gwasanaeth Fflecsi
- Datblygu seilwaith bysiau a blaenoriaethau o ran bysiau mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol
- Integreiddio bysiau i fysiau a bysiau i ddulliau teithio eraill
- Datblygu modelau cyllido ar gyfer y dyfodol
- Paratoi ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol – masnachfreinio

---

[1] Arolwg Cenedlaethol Cymru

[2] Arolwg Cenedlaethol Cymru

[3] Dadansoddiad gan Trafnidiaeth Cymru, 2019

- Prosiectau ategol – fel darllenwyr tapio ar y dechrau a'r diwedd, gwybodaeth amser real, gwasanaethau data
- Rheoli cardiau teithio rhatach
- Adolygu'r mesur teithio gan ddysgwyr

**Llywodraeth y DU**

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, ac yn rhannu'r dyheadau a nodir yn adroddiad Syr Peter Hendy ar Gysylltedd yr Undeb i wella cysylltedd trafnidiaeth rhwng gwledydd y DU ac oddi fewn iddynt i gefnogi twf economaidd ac ansawdd bywyd. Mae TrC yn awyddus i fod yn bartner pwysig, a dylai fod yn bartner pwysig yn y gwaith o wella cysylltedd ledled y DU. Er ein bod yn sefydliad datganoledig dan berchnogaeth Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n alluogwr allweddol i hybu cysylltedd yr undeb drwy wasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Rydyn ni'n awyddus i barhau i weithio gyda holl bartneriaid y diwydiant i gyflawni hyn.

Nid ydym yn edrych ar rwydweithiau trafnidiaeth yng Nghymru fel rhywbeth sydd ar wahân i'r rhwydweithiau yn Lloegr, yn enwedig yn yr ardaloedd ar y ffin. Mae Adroddiad Terfynol yr Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb (UCR), a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU ac a arweiniwyd gan Syr Peter Hendy, yn cyfeirio at dri choridor trafnidiaeth rhwng Cymru a Lloegr, ar gyfer gogledd Cymru, de Cymru a'r Gororau. Mae cysylltiadau pwysig â Lloegr hefyd, er enghraifft drwy Fryste, Caer, Crewe a Birmingham. Rydyn ni'n cydnabod yn llawn pa mor bwysig yw ein perthynas â Llywodraeth y DU a Network Rail, ac yn ystyried bod y cledrau a'r trenau yn ganolog i'n cymunedau er mwyn ein cysylltu ni i gyd.

Mae argymhellion Adroddiad Terfynol yr UCR yn cynnwys y dylai Llywodraeth y DU wneud y canlynol er mwyn cefnogi gwell cysylltedd i Gymru, o Gymru a drwy Gymru:

- datblygu pecyn o welliannau sy'n canolbwyntio ar Brif Reilffordd Gogledd Cymru, gan gynnwys gwell cysylltiad â HS2 a thrydaneiddio i wasanaethu gogledd Cymru'n well
- mabwysiadu ffordd aml-ddull ar gyfer coridor de Cymru drwy uwchraddio ac adeiladu gorsafoedd newydd ar Brif Reilffordd bresennol de Cymru, gan gefnogi pecyn Llywodraeth Cymru o welliannau trafnidiaeth gyhoeddus, a
- datblygu pecyn o welliannau i reilffyrdd i wella cysylltedd a lleihau amseroedd teithio rhwng Caerdydd, Birmingham a thu hwnt, a allai gynnwys cerbydau gwell, newidiadau i amserlenni a seilwaith gwell ar gyfer llwybr cyswllt gwell, cyflymach a mwy deniadol rhwng gogledd Cymru a de Cymru a chysylltedd â dinasoedd yn Lloegr.

Rydyn ni'n croesawu'r argymhellion hyn ar wella'r cysylltedd ac rydyn ni'n awyddus iawn i gael ffordd aml-ddull o weithredu.

Rydyn ni hefyd yn croesawu creu Bwrdd Rheilffyrdd Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolaeth ar lefel cyfarwyddwyr o Lywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth, TrC, Network Rail, a gweithredwyr trenau eraill sy'n gwasanaethu teithwyr yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at gymryd rhan yn ei sesiwn gyntaf dros yr wythnosau nesaf.

Fodd bynnag, er mwyn creu system drafnidiaeth wirioneddol aml-ddull y mae Cymru a'r Gororau yn ei haeddu, heb gyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer prosiectau fel trydaneiddio

neu brosiectau seilwaith mawr eraill, bydd yn eithriadol o anodd sicrhau hyn, a chyrraedd ein huchelgais cyffredin o gyflawni allyriadau sero net.

# Datblygu Metro ledled Cymru a chyflawni argymhellion Comisiwn Burns

**Uned Gyflawni Burns**
Sefydlwyd Uned Gyflawni Burns ym mis Ionawr 2021 i gyflymu'r broses o weithredu 58 argymhelliad yr Arglwydd Burns a Chomisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWTC).


Nod y gwaith yw cynnig dewisiadau eraill yn lle siwrneiau ar yr M4 ac annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn y rhanbarth.

Mae'r Uned yn cael ei hariannu gan Trafnidiaeth Cymru ac yn cael ei goruchwylio gan Grŵp Llywio sy'n dod â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth at ei gilydd. Mae'r grŵp yn cael ei gadeirio'n annibynnol gan Simon Gibson CBE, gyda chymorth Dr Lynn Sloman MBE. Gyda'i gilydd, maen nhw'n gyrru pecyn o welliannau trafnidiaeth ar draws de-ddwyrain Cymru, drwy gynllunio, arwain a monitro yn erbyn pob un o 58 argymhelliad Burns.

Gyda chymorth cyllideb gan Lywodraeth Cymru, mae'r Uned wedi bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer seilwaith rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol newydd a fydd yn ffurfio rhwydwaith o ddewisiadau amgen ar gyfer y rhanbarth. Mae argymhellion eraill sydd ar waith yn cynnwys newidiadau i bolisïau rhwydwaith, annog newid mewn ymddygiad teithio, llywodraethiant trafnidiaeth, defnydd tir a chynllunio.

Mae'r Uned yn canolbwyntio i ddechrau ar hwyluso gwelliannau i reilffordd Prif Reilffordd De Cymru, a gorsafoedd newydd ar ei hyd, yn ogystal â mabwysiadu dull ymarferol o lunio opsiynau ar gyfer coridorau bysiau a theithio llesol yng Nghaerdydd, Casnewydd, a Sir Fynwy a rhyngddynt, gan wella mynediad bysiau a dulliau teithio llesol i orsafoedd rheilffordd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.

**Prif Reilffordd De Cymru**
Mae rhaglen Prif Reilffordd De Cymru yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'r gwaith dylunio, datblygu, cynllunio ac achosion busnes ar gyfer cynlluniau ar ran Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ar gyfer eu rhoi ar waith. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid yn y diwydiant gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth, Trafnidiaeth Cymru, Porth y Gorllewin, Awdurdod Cyfun Gorllewin Lloegr, Awdurdodau Lleol a Gweithredwyr Trenau i gefnogi datblygiad y prosiectau hyn ar hyd y llwybr.




**Blaenoriaethau ar unwaith:**

Mae blaenoriaethau cynnar y rhaglen hyd at ddiwedd y degawd presennol yn cynnwys:

- Cynyddu pa mor aml mae gwasanaethau'n aros ar hyd y llwybr 'Swanline' rhwng Caerdydd ac Abertawe
- Gwella cysylltedd rhwng gorllewin Cymru a de-orllewin Lloegr drwy ddarparu gwasanaethau uniongyrchol o orllewin Cymru i Fryste Temple Meads
- Bwrw ymlaen ag argymhellion comisiwn 'Burns' ar gyfer rheilffyrdd i greu pum gorsaf newydd yn ne-ddwyrain Cymru a gwasanaethau stopio rhwng Caerdydd a Bryste/Cheltenham i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4
- Cefnogi datgarboneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd drwy ymestyn y broses trydaneiddio rhwng Caerdydd ac Abertawe
- Lleihau amseroedd teithiau o orllewin a de Cymru i dde-orllewin a de-ddwyrain Lloegr drwy fesurau i gynyddu'r cyflymder ar hyd y llwybr
- Amserlennu strategol i gefnogi a chydlynu dyheadau o ran y gwasanaeth a dyheadau'r rhaglenni Metro cyfagos i ddeall anghenion cynllunio'r llwybr dros y tymor canolig i'r tymor hir.
- Datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â chyfyngiadau capasiti fel rhwng Hwlffordd ac Aberdaugleddau, Cyffordd Dwyrain Abertawe, Gorllewin Caerdydd a Thwnnel Hafren
- Darparu gorsafoedd newydd ar y brif reilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe i wella mynediad at y rhwydwaith rheilffyrdd
- Cefnogi datblygu rhwydweithiau Metro sy'n gwasanaethu Bae Abertawe a gorllewin Cymru, a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd

**Teithio Llesol ac Integreiddio:**

Bydd TrC yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi awdurdodau lleol i sicrhau bod yr holl orsafoedd newydd a'r gorsafoedd presennol ar y llwybr yn cael eu hintegreiddio'n llawn i rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol lleol.

**Prosiectau tymor hwy:**
**Rheilffyrdd:**
Rhagor o drydaneiddio i ddatgarboneiddio gweithrediadau rheilffyrdd yng ngorllewin Cymru ac ymgymryd â gwaith i wella pa mor gadarn yw Prif Reilffordd De Cymru i wynebu effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y tymor hwy, gan gynnwys cynnydd yn y perygl o lifogydd ar yr arfordir ac mewn afonydd.

**METRO CANOLOG**
Bydd y Rhaglen Metro Canolog yn sefydlu canolfan drafnidiaeth integredig yng nghanol Caerdydd, gan integreiddio gwasanaethau bysiau, rheilffyrdd a theithio cynaliadwy i roi gwell mynediad i bobl at gysylltiadau trafnidiaeth ac i gynnig gwell cyfleoedd i unigolion deithio mewn modd cynaliadwy.

**Rheilffyrdd:**
Rydyn ni'n datblygu gwelliannau i orsaf Caerdydd Canolog a fydd yn lliniaru'r gorlenwi a'r tagfeydd sy'n digwydd yn rheolaidd yn yr orsaf drenau ac yn helpu i ateb y galw pan fydd digwyddiadau yn y rhanbarth, gyda digon o gapasiti ar gyfer twf yn nifer y teithwyr yn y tymor hir. Bydd y newidiadau'n datblygu cyfnewidfa aml-ddull well a fydd yn gallu gweithredu fel prif ganolfan drafnidiaeth y Brifddinas-Ranbarth ac yn orsaf allweddol ar rwydwaith Metro De Cymru. Bydd y gyfnewidfa well yn annog newid dulliau teithio i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gwella ansawdd yr aer a helpu pobl i symud i ffordd o fyw di-garbon.

Mae'r prosiect hwn newydd gwblhau'r cam dichonoldeb, a bydd yn symud ymlaen yn awr i'r cam datblygu a dewis opsiynau.

Mae TrC yn gweithio'n agos gyda'r cyllidwyr (Yr Adran Drafnidiaeth, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru) a rhanddeiliaid allweddol (Network Rail, Cyngor Caerdydd, RightAcres, GWR, Cross Country, Rheilffyrdd TrC Cyf a gweithredwyr cludo nwyddau) i gyflawni'r cynllun hwn.

**Bysiau:**
Yn agor yn ystod haf 2023, mae Cyfnewidfa Bws Caerdydd yn gyfleuster canolog newydd sbon i fysiau gyda 14 o gilfachau bysiau, gwahanol unedau manwerthu, toiledau cyhoeddus a mannau gwerthu lluniaeth.

Bydd y gyfnewidfa newydd gyffrous hon yn cysylltu pobl yn well â chyfleoedd gwaith, iechyd a hamdden, ac yn helpu pobl i wneud dewisiadau teithio mwy cynaliadwy.

**Teithio Llesol:**
Yn ardal y Metro Canolog, byddwn yn cyflwyno 1,000 o fannau parcio beiciau o ansawdd uchel fel rhan o brosiectau presennol i wella cyfleusterau, gyda'r gobaith o gynnig 4,000 yn y tymor hwy. Bydd y ddarpariaeth hon yn rhan o gynllun meistr integredig a fydd yn cysylltu seilwaith teithio llesol newydd y ddinas â chyfnewidfa i ddulliau teithio eraill a chyfleoedd preswyl a chyflogaeth newydd.

**Trafnidiaeth Integredig:**
Bydd trafnidiaeth integredig yn yr ardal hon ar sawl ffurf, o well cyfleusterau parcio beiciau

yn y ganolfan drafnidiaeth hon, dulliau gwell o ganfod y ffordd a gwybodaeth i wella profiad teithwyr i newidiadau mewn seilwaith ffisegol fel lloches rhag y tywydd a phrofiadau gwell i deithwyr sy'n crwydro'r ardal heb fwriad i deithio ymhellach.

**Bysiau:**
Mae bysiau'n gallu cyrraedd ein cymunedau ledled Cymru lawer gwell, a byddwn yn gweld gwelliannau sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Bydd TrC yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau dibynadwy o ansawdd uchel sydd â chysylltiadau da ac sy'n cael blaenoriaeth dros draffig.

Bydd TrC yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i wella ansawdd y cerbydau a ddefnyddir er mwyn rhoi profiad mwy pleserus i gwsmeriaid a gwella ansawdd yr aer. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Leol i ddiwygio prif lwybrau'r bysiau er mwyn sicrhau amseroedd teithio cyflymach a mwy dibynadwy, sy'n cysylltu â gwasanaethau rheilffyrdd a theithio llesol.

Bydd y ffocws cynnar ar ardaloedd prysur nad ydynt yn cael eu gwasanaethu cystal gan y rheilffyrdd, gan gynnwys Coridor y gogledd-orllewin rhwng Talbot Green/Beddau a Chaerdydd, a rhwng dwyrain Caerdydd a gorllewin Casnewydd. Bydd y ddau yn ystyried pa mor ymarferol fyddai darparu gwasanaeth Llwybr Bysiau Metro Cyflym, ac rydym yn bwriadu ei gyflwyno'n ddiweddarach i goridorau allweddol eraill ar draws y rhanbarth.

**Teithio Llesol ac Integreiddio:**
Mae TrC yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi awdurdodau lleol i ddatblygu ein Cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd Teithio Llesol cyntaf yn y rhanbarth yng Ngorsafoedd Pontypridd a Phen-y-bont ar Ogwr, wedi'u hintegreiddio â chynlluniau rhwydwaith lleol ehangach. Y nod yw datblygu llwybrau cerdded a beicio o ansawdd uchel ar gyfer milltir gyntaf/olaf teithiau'r Metro. Bydd rhagor o Gynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd yn dilyn ar ôl i'r gorsafoedd cyntaf hyn gael eu datblygu a'u cyflwyno. Bydd hyn yn cysylltu â rhaglen waith ehangach i wella proses integreiddio teithio llesol, bysiau a threnau ar draws rhwydwaith y Metro.

**Prosiectau tymor hwy:**
**Llwybr Trenau a Bysiau Cyflym:**
Bydd uchelgeisiau tymor hwy ar gyfer y Metro yn canolbwyntio ar gyflwyno lefelau amlder a chysylltedd y gwasanaethau ar Linellau Craidd y Cymoedd i weddill y rhwydwaith. Bydd y gwelliannau hyn yn cynnig gwell mynediad at swyddi a gwasanaethau ar gyfer rhannau mwy gwledig o'r rhanbarth megis Bro Morgannwg, Cymoedd y dwyrain a Sir Fynwy.

Mae TrC yn dechrau nifer o astudiaethau strategol i wella cyfleoedd Metro ar draws yr ardaloedd blaenoriaeth hyn, a bydd yn edrych ar drydaneiddio mwy o'r rhwydwaith rheilffyrdd er mwyn datgarboneiddio a gwella'r effaith amgylcheddol o ran y cymunedau lleol. Disgwylir i ddarpariaeth bysiau strategol chwarae rhan allweddol mewn rhai coridorau yn sgil integreiddio gwasanaethau, seilwaith gwell, mesurau blaenoriaeth, cerbydau o ansawdd uchel. Y nod fydd darparu gwasanaethau uniongyrchol a dibynadwy o ansawdd uchel gydag amseroedd teithio atyniadol, wedi'u llunio ar sail Manyleb Llwybr Bysiau Cyflym TrC.


**METRO GOGLEDD CYMRU**
Mae Rhaglen Metro Gogledd Cymru yn gwbl amodol ar ddatblygu achos busnes, sicrhau cyllid a chynllunio.

Nod Rhaglen Metro Gogledd Cymru yw darparu system drafnidiaeth gyhoeddus integredig ar ei newydd wedd. Mae'r rhaglen yn edrych ar yr hyn y mae angen i ni ei adeiladu ar gyfer y dyfodol, gan ystyried pob dull teithio gyda tharged allweddol ar gyfer newid dulliau teithio i ddenu cwsmeriaid i'r system drafnidiaeth gyhoeddus, a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a thargedau sero net.

Rydyn ni'n bwrw ymlaen â'r gwaith datblygu cynnar, y cynllunio a'r achosion busnes ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau trafnidiaeth integredig ar ran Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o naill ai eu cyflawni drwy Trafnidiaeth Cymru (TrC) a/neu bartneriaid Awdurdodau Lleol a sicrhau cyllid ehangach yn y DU ar gyfer eu rhoi ar waith.

Mae TrC yn gweithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid yn y diwydiant gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth, Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol Cyfun ac Unigol yng ngogledd-orllewin Lloegr, Network Rail, Gweithredwyr Trenau a Bysiau a Grwpiau Busnes i gefnogi datblygu'r prosiectau hyn.


**Gweledigaeth**






Template Reference: TfW-PMO-TMP-ID00395 | Template Revision: 04 | Uncontrolled once printed

**Blaenoriaethau ar unwaith:**




**Rheilffyrdd:**
Mae TrC yn gweithio'n agos gyda chyllidwyr (Yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru) a phartneriaid allweddol (Network Rail, Awdurdodau Cyfun a Lleol, Rheilffyrdd TrC, Avanti West Coast, Merseyrail, a busnesau lleol) i ddatblygu prosiectau seilwaith rheilffyrdd a fydd yn gwella cysylltedd, capasiti, cyflymder a diogelwch rhwydweithiau rheilffyrdd ar hyd arfordir gogledd Cymru a'r Gororau (Wrecsam i Lerpwl).

Bydd y prosiectau hyn yn galluogi gwasanaethau trên amlach, cyflymach a mwy hygyrch ar y llwybrau hyn, ac yn darparu gwell mynediad at addysg, cyflogaeth a gwasanaethau, gwella allbwn economaidd lleol a rhanbarthol, cyfrannu at ddatgarboneiddio, galluogi datblygu cynaliadwy ac adfywio, a gwella capasiti gweithredol, cadernid ac effeithlonrwydd y rhwydwaith rheilffyrdd.

**Bysiau:**
Mae bysiau'n cyrraedd llawer o gymunedau ar draws gogledd Cymru, a byddwn yn gweld gwelliannau sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Bydd TrC yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau dibynadwy ac integredig o ansawdd uchel sydd â chysylltiadau da, a fydd yn cynnig mynediad i fwy fyth o breswylwyr at drafnidiaeth gyhoeddus ac yn annog twristiaeth gynaliadwy i'r ardal.

Bydd TrC yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a gweithredwyr bysiau i wella ansawdd a thechnoleg y cerbydau a ddefnyddir er mwyn rhoi profiad mwy pleserus i gwsmeriaid a gwella ansawdd yr aer. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Leol i ddiwygio prif lwybrau'r bysiau er mwyn sicrhau amseroedd teithio cyflymach a mwy dibynadwy, sy'n cysylltu â gwasanaethau rheilffyrdd a theithio llesol.


Ar hyn o bryd, mae TrC yn gweithio'n agos â Chyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â thagfeydd a phroblemau parcio drwy wella gwasanaethau bysiau. Mae TrC yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gyflwyno


Template Reference: TfW-PMO-TMP-ID00395 | Template Revision: 04 | Uncontrolled once printed

mwyafswm pris, system docynnau integredig a thechnoleg tapio ar y dechrau a'r diwedd i symleiddio'r broses ar gyfer teithwyr a gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ar lunio rhwydweithiau a darpariaeth gwasanaethau ar draws y rhanbarth.

**Parcio a Theithio Strategol:**
Mae TrC yn gweithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol i ganfod a datblygu safleoedd parcio a theithio strategol ledled gogledd Cymru. Bydd y safleoedd hyn yn galluogi'r cymunedau gwledig hynny, lle maent yn dibynnu ar geir, i allu cael mynediad rhwydd at ddulliau teithio cynaliadwy, fel teithio llesol, bws neu drên, ar gyfer eu teithiau.

**Teithio Llesol:**




Mae TrC yn gweithio ar gamau cynnar datblygu prosiectau teithio llesol a fydd yn helpu i greu rhwydwaith trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, cydnerth ac effeithiol mewn trefi ledled gogledd Cymru. Mae'r prosiectau'n cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid trafnidiaeth ac adfywio perthnasol yn Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol a grwpiau defnyddwyr.

Mae'r prosiectau hyn yn ceisio annog teithio mwy cynaliadwy a llesol drwy wella'r profiad i ddefnyddwyr a darparu gwell cysylltedd rhwng dulliau teithio. Bydd y prosiectau'n cyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy alluogi newid mewn dulliau teithio tuag at ddulliau mwy cynaliadwy yn unol â hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae cynlluniau Rhwydwaith Gorsafoedd mewn 11 o orsafoedd categori C wedi cael eu cwblhau.

**Integreiddio:**
Mae TrC yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid datblygu i sicrhau bod strategaethau mynediad a symud cynaliadwy yn cael eu hintegreiddio i gamau cynnar prosiectau trawsnewid, adfywio a phrosiectau phorth mewn llefydd. Mae'r rhain yn cynnwys Wrecsam, y Rhyl, Eryri, Bangor a Chaergybi. Nod TrC yw sicrhau bod newid dulliau teithio tuag at ddulliau teithio mwy cynaliadwy yn rhan integredig o'r prif gynlluniau ar gyfer yr ardaloedd hyn yn unol â hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

07 Mawrth 2022

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Chwefror 2022 yn cynnwys adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar ei waith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022 – 23. Rydym yn ddiolchgar am waith y Pwyllgor ar hyn. Amgaeaf ymateb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir

| | |
|---|---|
| **Julie James AS/MS** | **Lee Waters AS/MS** |
| Gweinidog Newid Hinsawdd | Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd |
| Minister for Climate Change | Deputy Minister for Climate Change |

**Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar ei waith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022 – 23**

**Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru wella'r trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer cyflawni'r Cynllun Sero Net a thargedau lleihau allyriadau, gyda'r nod o gefnogi gwaith craffu'r Senedd yn well. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol ar y Cynllun Sero Net, ac adroddiadau mwy rheolaidd ar y cynnydd a wneir i gyflawni gostyngiadau allyriadau.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym eisoes wedi datblygu system gynhwysfawr i fonitro'r gwaith o gyflawni *Cymru Sero Net*, gan gynnwys deddfwriaeth, dangosyddion, system monitro ac adrodd, adroddiadau cynnydd annibynnol gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yn ogystal â chraffu gan y Senedd a phwyllgorau'r Senedd, ar y cynllun cyfan yn ogystal â pholisïau unigol.

Caiff cynnydd mwy cyffredinol tuag at ein targedau a'n cyllidebau ei olrhain a'i adrodd yn flynyddol drwy ein hadroddiad Llesiant Cymru. Mae ein dangosyddion llesiant cenedlaethol yn adrodd hanes y cynnydd tuag at ein 7 nod llesiant ac yn cynnwys mesurau o allyriadau nwyon tŷ gwydr (ar sail ddomestig ac ar sail defnydd). Cyhoeddir ein hallyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn flynyddol drwy'r rhestr nwyon tŷ gwydr.

Lluniwyd ein deddfwriaeth i asesu cynnydd cyffredinol yn erbyn y targedau a'r cyllidebau~~,~~ drwy gynnwys gofynion adrodd ar ddiwedd pob cyfnod cyllidebol. Mae hyn yn helpu'r rhai sy'n craffu i ddeall y tueddiadau macro, yn hytrach na chanolbwyntio ar flynyddoedd unigol, sy'n gallu dangos amrywioldeb sylweddol. Byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiad Cynnydd cyntaf yn ddiweddarach eleni, a fydd yn dangos a ydym wedi cyflawni ein cyllideb garbon gyntaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r trefniadau hyn yn gyson er mwyn sicrhau bod cynnydd o ran cyflawni yn cael ei gynnal.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad cynhwysfawr o'r gwaith y mae'n ei wneud i ddenu buddsoddiad preifat i dalu'r gost o gyrraedd sefyllfa Sero Net.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae ein targedau ar gyfer lleihau allyriadau wedi'u pennu ar lefel Cymru, felly mae *Cymru Sero Net* yn gynllun Cymru Gyfan sy'n cydnabod y bydd angen i bawb gymryd camau, gan gynnwys Llywodraeth y DU a'r sector preifat.

Mae gan bob sector allyriadau gyfleoedd a heriau gwahanol o ran bodloni lefel y buddsoddiad sydd ei angen yn y cyfnod pontio i sero net, ac rydym yn cydnabod bod gan y sector preifat gyfraniad pwysig iawn i'w wneud. Er bod llawer o'r ysgogiadau polisi allweddol sy'n dylanwadu ar fuddsoddiad yn y sector preifat wedi'u cadw'n ôl gan Lywodraeth y DU, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pwerau/cyfleoedd sydd ar gael i ni i ysgogi buddsoddiad ychwanegol yn y sector preifat, ac mae'n pwyso ar Lywodraeth y DU mewn meysydd polisi sydd wedi'u cadw'n ôl.

Er na ellir datblygu cynllun cwbl gynhwysfawr eto oherwydd yr ansicrwydd cynhenid ynghylch dull gweithredu Llywodraeth y DU ac esblygiad technoleg, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Cynnydd cyntaf, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch canlyniad yr adolygiad o'r broses gydsynio a'r dystiolaeth a'r cyngor sy'n cyd-fynd â honno. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw newidiadau yn y dyraniad cyllidebol o ganlyniad i'r adolygiad, ac am y cyllid ar gyfer Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr Cyfoeth Naturiol Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n comisiynu adolygiad annibynnol o'r modd y caiff y system trwyddedu morol ei gweithredu yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau erbyn haf 2022 a bydd diweddariad yn cael ei roi i'r Pwyllgor unwaith y bydd y broses wedi dod i ben, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw newidiadau cysylltiedig i'r gyllideb a chyllid ar gyfer Rhaglen Ynni Adnewyddadwy ar y Môr Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim. Bydd costau'r adolygiad yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:**

**▪ esbonio a fydd penderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â darparu cyllid ar gyfer y rhaglen adfer yn effeithio ar y gallu i gyflawni'r rhaglen yn y tymor hwy**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelwch ein cymunedau ac i baratoi ar gyfer yr heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, a all arwain at dywydd mwy eithafol. Rydym hefyd wedi ymrwymo i drawsnewid asedau gwastraff tomenni glo yn fuddion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol i gymunedau Cymru.

Nid ydym yn derbyn y dylid disgwyl i gymunedau Cymru ysgwyddo cost anghymesur adfer tomenni glo segur. Dylai cost unrhyw gamau gweithredu i liniaru a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n deillio o ddiwydiant glo'r DU gael ei thalu ar lefel y DU, ac rydym yn parhau i alw ar Lywodraeth y DU i ysgwyddo ei chyfrifoldebau yn hyn o beth.

Bydd penderfyniad Llywodraeth y DU yn yr Adolygiad o Wariant ym mis Hydref 2021 yn cael effaith ar benderfyniadau cyllideb Llywodraeth Cymru. Bydd angen i ni ailystyried ein blaenoriaethau ar draws pob maes portffolio i ailgyfeirio a sicrhau'r cyllid angenrheidiol o'n cyllideb ein hunain. Gallai hyn effeithio ar hyd rhaglen adfer, gan fod angen ymestyn y rhaglen dros gyfnod hwy. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo cyllid cyfalaf o £44.4 miliwn dros y tair blynedd nesaf i awdurdodau lleol ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ac adfer.

**▪ egluro a yw'n bwriadu parhau i fynd ar drywydd ei huchelgais i ddefnyddio tomenni glo at ddibenion newydd yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fynd ar drywydd yr uchelgais hwn er mwyn diogelu cymunedau lleol yn y tymor hwy. Rydym yn cydnabod y manteision y gall buddsoddi mewn rhaglen adfer a newid diben eu cyflwyno i gymunedau Cymru sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan orffennol diwydiannol Cymru. Mae'r manteision hyn yn cynnwys datblygu sgiliau newydd a mwy o gyflogaeth i gymunedau'r Cymoedd, gwella'r amgylchedd i bobl sy'n byw yno a chyfleoedd hamdden newydd posibl.

**Argymhelliad 5**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen y mae'n gweithio tuag ati i gyflwyno Bil diogelwch tomenni glo.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system diogelwch tomenni glo newydd i Gymru. Disgwylir i Gomisiwn y Gyfraith gyflwyno ei argymhellion ar gyfer fframwaith rheoleiddio newydd i Lywodraeth Cymru yn fuan. Byddwn yn ystyried yr argymhellion hyn ochr yn ochr â'n dadansoddiad polisi ac yn ceisio paratoi Papur Gwyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ebrill, yn dilyn Toriad y Pasg. Bydd yr amserlen ar gyfer cyflwyno Biliau i'r Senedd yn cael ei chyhoeddi gan y Prif Weinidog yn ei ddatganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol ehangach cyn toriad yr haf.

**Argymhelliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r rheswm dros y gostyngiad mewn cyllid cyfalaf ar gyfer ansawdd aer o £5 miliwn yn 2022-23 i £0.3 miliwn yn 2024-25.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd dyraniadau'r gyllideb gyfalaf ddrafft yn galluogi cyflawni ein hymrwymiadau yn y Cynllun Aer Glân, gan gynnwys rhwydwaith monitro ansawdd aer gwell, a chefnogi awdurdodau lleol i gymryd camau mewn perthynas ag ansawdd aer lleol, gan gynnwys cyflawni terfynau statudol ar gyfer crynodiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd. Mae'r lleihad yn nyraniad y gyllideb ar draws y cyfnod ariannu yn adlewyrchu'r ffaith y bydd ein hymrwymiadau cyfalaf mwyaf (costau nitrogen deuocsid awdurdodau lleol, a chostau'r rhwydwaith monitro ansawdd aer) wedi'u cwblhau i raddau helaeth cyn 2024-25. Nid oes unrhyw gostau cyfalaf sylweddol yn gysylltiedig â darpariaethau drafft y Bil Aer Glân fel y'u nodwyd yn y Papur Gwyn yr ymgynghorwyd arno yn 2021. Bydd y gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2024-25 yn talu unrhyw gostau gweddilliol y rhwydwaith monitro ac yn rhoi arian i awdurdodau lleol i'w helpu i fynd i'r afael â heriau ansawdd aer lleol. Bydd y gyllideb refeniw ddrafft yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Bil, gan gynnwys costau sy'n gysylltiedig â nodi targedau ansawdd aer newydd a thystiolaeth arall.

**Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru egluro pryd y bydd y crynodeb o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru) yn cael ei gyhoeddi. Dylai hyn gynnwys esboniad am yr oedi cyn ei gyhoeddi a dylid egluro a fydd hyn yn effeithio ar yr amseru o ran cyflwyno'r Bil. Dylai gynnwys amserlen ddangosol hefyd ar gyfer y cyfnodau sy'n weddill o ddatblygiad y Bil.**

**Ymateb: Derbyn**

Oherwydd pwysau gwaith arall, gohiriwyd rhyddhau'r crynodeb o'r ymatebion. Fodd bynnag, ein nod yw cyhoeddi'r ddogfen yn fuan. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi datblygu targedau ansawdd aer newydd, cyflwyno gwasanaeth monitro ac asesu ansawdd aer newydd i gefnogi camau gweithredu wedi'u targedu i wella

ansawdd aer, a gwelliannau i’r drefn Rheoli Ansawdd Aer Lleol. Nid yw dyraniadau'r gyllideb ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn dibynnu ar y crynodeb o ymatebion na gweithrediad y Bil. Y Prif Weinidog fydd yn cyhoeddi’r amseru ar gyfer cyflwyno Biliau i'r Senedd yn ei ddatganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol ehangach cyn toriad yr haf.

**Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o fanylion am gyfanswm y gost a amcangyfrifwyd i ddatgarboneiddio'r stoc dai, gyda manylion fesul deiliadaeth. Dylai hefyd egluro sut mae hyn wedi llywio'r dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23.**

**Ymateb: Derbyn**

Amcangyfrifodd adroddiad Comisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol, "Cartrefi addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod", y byddai'r gost o ddatgarboneiddio tua £15 biliwn, wedi'i dadansoddi fel a ganlyn.

| Deiliadaeth/statws | Nifer y cartrefi | Y buddsoddiad cyfartalog sy'n ofynnol fesul cartref | Cyfanswm Buddsoddiad (biliynau) |
|---|---|---|---|
| **Tai cymdeithasol** | 230,000 (~21,000 mewn tlodi tanwydd) | £24,000 | £5.52 |
| **Tai sydd mewn tlodi tanwydd** | 155,000 (~21,000 yn cael eu rhentu'n gymdeithasol) | £35,984 | £4.82 |
| **Sector Rhentu Preifat (PRS)** | 180,000 (~36,000 mewn tlodi tanwydd) | £4,700 | £0.67 |
| **Perchen-feddiannydd** | 924,000 (~99,000 mewn tlodi tanwydd) | £4,525 | £3.73 |
| **Cyfanswm** | | **-** | **£14.75** |

- Mae'r gost gyfartalog fesul cartref yn seiliedig ar ddata gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru (WSA), i gyflawni EPC A ar gyfer tai cymdeithasol a chartrefi sydd mewn tlodi tanwydd, ac EPC C ar gyfer pob cartref arall.

- Ni ddylid ystyried y ffigurau a gyflwynir uchod yn rhagfynegiad pendant o gost derfynol datgarboneiddio stoc dai Cymru. Mae'r amcangyfrifon hyn yn ymgorffori gostyngiadau o brisiau heddiw ar gyfer technolegau a mesurau y disgwylir iddynt ostwng mewn cost yn sylweddol yn y blynyddoedd i ddod.

- Rhagwelir hefyd y gallai ORP ac arbedion maint rhaglen ôl-osod genedlaethol gyfrannu ymhellach at leihau costau ac effeithlonrwydd prosesau. At hynny, gall technolegau newydd ddod i'r amlwg sy'n newid y llwybr a ddewiswyd ar gyfer ôl-osod cartrefi yn sylweddol.

- Fodd bynnag, defnyddir modelu WSA fel canllaw tymor agos i gost gyffredinol datgarboneiddio cartrefi yn y blynyddoedd i ddod.

- Mae arbedion cost o 20% ar gyfer tai cymdeithasol a 10% ar gyfer pob deiliadaeth arall o’r modelu WSA wedi'u cynnwys yn y buddsoddiad cyfartalog fesul cartref uchod.

- Ystyrir bod y dyraniad yn y gyllideb bresennol yn ddigonol ar gyfer ein dull gweithredu arfaethedig, sef cefnogi llwybr 'profi a dysgu' ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio, er mwyn helpu i gael dealltwriaeth fanwl o'r gost a'r llwybrau at ddatgarboneiddio ar gyfer stoc dai Cymru. Bydd hyn yn helpu i lywio cynllun cyflawni tymor hwy ar gyfer rhaglenni ôl-osod ar raddfa fawr. Mae buddsoddiad drwy MRA a Dowry wedi'i gynnal i gefnogi'r gwaith o gyflawni Safon Ansawdd Tai newydd Cymru a gyflwynir o 2023 ac a fydd yn canolbwyntio'n gryf ar effeithlonrwydd tanwydd a datgarboneiddio.

**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r ymateb hwn.

**Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion canlyniadau'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio hyd yma, a'r canlyniadau y disgwylir eu cyflawni drwy'r buddsoddiad cynyddol hyd at 2024-25. Dylai hyn gynnwys nifer y tai sydd wedi elwa o'r rhaglen, neu'r nifer y disgwylir iddynt elwa ohoni.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi darparu cyllid i 4,500 o gartrefi cymdeithasol ledled Cymru hyd yma. Mae hefyd yn buddsoddi cyllid i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sydd eu hangen i ddatgarboneiddio cartrefi'n effeithiol, gan gynnwys;

- Creu swyddi, hyfforddiant a phrentisiaethau i uwchsgilio ac ailhyfforddi pobl a busnesau gyda'r sgiliau gwyrdd angenrheidiol i wneud gwaith ar gartrefi preswylwyr,
- gwella parodrwydd preswylwyr i ddatgarboneiddio,
- creu modelau caffael effeithlon,
- tyfu cadwyni cyflenwi Cymru,
- cefnogi busnesau bach a chanolig,
- rhannu dysgu ynghylch datgarboneiddio preswyl gyda sefydliadau ac unigolion.

Erbyn diwedd 2025, rydym yn disgwyl i fuddsoddiad y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio fod wedi cyfrannu at daith ddatgarboneiddio 148,000 o gartrefi drwy lenwi'r bwlch cyllid rhwng yr hyn y gall landlordiaid cymdeithasol fforddio ei fuddsoddi mewn datgarboneiddio pob cartref cymdeithasol a chostau presennol gwaith o'r fath.

Mae sianelu buddsoddiad y Rhaglen drwy landlordiaid cymdeithasol yn cefnogi dull 'profi a dysgu' o ran sut i ddatgarboneiddio cartrefi'n effeithiol ac yn effeithlon.

Mae amrywiaeth o gartrefi wedi dechrau ar eu taith ddatgarboneiddio yn barod. Mae'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl oherwydd bod cyfyngiadau COVID wedi effeithio ar fynediad tenantiaid i gartrefi dros y 12 mis diwethaf. Mae prinderau yn y gadwyn gyflenwi hefyd wedi effeithio ar argaeledd microsglodion sydd eu hangen yn y mesuryddion a osodir i fesur effaith gwaith datgarboneiddio mewn cartrefi cymdeithasol dros amser. Wrth i'r materion hyn gael eu datrys, bydd y rhaglen yn cyflymu.
**Goblygiadau Ariannol** – Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r ymateb hwn

**Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am yr opsiynau y mae'n eu hystyried i ariannu ôl-osod yn y sector perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gwerthuso amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ariannu gwaith ôl-osod yn y sector perchen-feddianwyr a'r sector rhentu preifat. Mae'r rhain yn ymgorffori cyllid grant a chyllid ad-daladwy. Bydd gallu ariannol y defnyddwyr terfynol yn cael ei ddefnyddio i helpu i'w cyfeirio at yr ateb ariannu mwyaf priodol yn y tymor canolig.

Mae rhai o'r modelau a ystyrir yn cynnwys asesu ynni glân fesul eiddo, lle mae'r benthyciad yn gysylltiedig â'r eiddo yn hytrach na'r unigolyn, benthyciadau llog isel, benthyciadau rhyddhau ecwiti a morgeisi gwyrdd. Efallai y bydd angen mecanwaith grant hefyd ar gyfer aelwydydd incwm is.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector i werthuso'r rhaglen SATC hirsefydlog ac i ddatblygu safon ddiwygiedig. Bydd y fersiwn newydd yn ein symud ymlaen o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'r newid yn yr hinsawdd, gan osod y safonau ar gyfer ôl-osod cartrefi cymdeithasol. Mae sefydlu'r safon hon hefyd yn allweddol i ddatblygu model ariannu ar gyfer y dyfodol. Rydym yn sicrhau ein bod yn gweithio gyda DBW i sicrhau ein bod yn alinio cynigion a gwaith yn y gofod hwn.

**Goblygiadau ariannol –** Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn deillio o'r ymateb hwn.

**Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau rhynglywodraethol ynghylch plastigau untro, gan gynnwys rhoi gwybod a oes cytundeb ynghylch ffordd ymlaen wedi'i sicrhau.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae trafodaethau rhynglywodraethol yn parhau mewn perthynas â'r gwaharddiadau fel rhan o'r Cytundebau Fframwaith Cyffredin ar ôl Brexit. Mae'r holl opsiynau'n cael eu harchwilio. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni ein huchelgais polisi ar blastig untro.

**Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith i newid ymddygiad pobl wrth geisio newid dulliau teithio, gan gynnwys rhoi rhagor o fanylion am sut y bydd y gyllideb ddrafft yn cefnogi hyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae rhaglen newid ymddygiad a arweinir gan yr hinsawdd yn cael ei datblygu a fydd yn cynnwys amryw o linynnau ymgyrchu ar gyfer newid ymddygiad cadarnhaol o ran yr hinsawdd, i'w cyflwyno o dan un dull ymgyrch integredig, gan gynnwys yr angen i bobl ymgorffori'r argyfwng hinsawdd yn y ffordd y maent yn teithio.

Bydd y rhaglen waith yn cael ei chynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth a bydd diweddariadau'n cael eu darparu'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith hwnnw, gan adrodd i'r Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth.

Mae camau penodol hefyd yn cael eu cymryd ar draws yr is-adran drafnidiaeth i ymgorffori newid ymddygiad yn unol â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, gan gynnwys:

- Datblygu amrywiaeth o brosiectau newid ymddygiad i annog pobl i wneud dewisiadau teithio doethach i leihau tagfeydd, a chynyddu'r defnydd o ddulliau teithrio cynaliadwy, gan gynnwys clybiau ceir, teithiau llesol i'r ysgol a chyflwyno terfyn cyflymder o 20mya.
- Cefnogi symud oddi wrth berchnogaeth unigol o gerbydau i rannu ceir, gan gynnwys cefnogi clybiau ceir peilot a chynlluniau rhannu beiciau.
- Defnyddio addysg, marchnata a dulliau eraill i drawsnewid y ddelwedd o gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus – bydd hyn yn cynnwys cymorth pellach i ehangu rôl Trafnidiaeth Cymru o ran ymgysylltu â'r gymuned i gynnwys cynllunio teithiau a chefnogi partneriaid a sefydliadau eraill i ddarparu cyfleusterau a rhaglenni sy'n annog newid dulliau teithio. Mae Trafnidiaeth

Cymru hefyd yn cynnal Ymgyrch Adfer Trafnidiaeth Gyhoeddus ym mis Mawrth/Ebrill, gan ganolbwyntio ar newid dulliau teithio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol.

- Arweinwyr polisi hyfforddi staff i uwchsgilio yn ymgorffori newid ymddygiad yn ein holl weithgareddau, sicrhau ein bod yn cynnig y cyfle i newid ymddygiad drwy ddarparu dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy, y gallu i gymryd rhan mewn newid ymddygiad drwy hyfforddiant a chymorth a'r cymhelliant i annog y newid mewn ymddygiad drwy ymgyrchoedd marchnata.

**Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw asesiad sydd wedi'i wneud o effaith cynnydd mawr mewn teithio llesol, neu gynnydd mawr yn nifer y trigolion yng Nghymru sy'n gweithio gartref, ar y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'n amlwg bod gofyn i nifer fawr o bobl weithio gartref wedi cael effaith sylweddol ar y defnydd o'r rheilffyrdd. Hyd yn oed ar ôl i'r gofyniad cyfreithiol i weithio gartref gael ei godi ddiwedd mis Ionawr 2022, nid yw'r defnydd o'r rheilffyrdd ar draws rhwydweithiau Cymru a'r Gororau / Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ond tua 60% o'r hyn ydoedd ar ddyddiau'r wythnos cyn Covid. Mae hyn yn wahanol i'r defnydd ar benwythnosau, sef teithiau hamdden gan mwyaf, sydd wedi dychwelyd i tua 80%.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cynnal rhagolygon gan ddefnyddio modelau trafnidiaeth rhanbarthol i ddeall effaith bosibl mwy o weithio o bell ar drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y rhagolygon hyn yn llywio sut y bydd ein polisïau yn y dyfodol yn datblygu i annog defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar adegau pan fo tagfeydd ar y ffyrdd yn lleihau, a sicrhau bod y rhai sy'n teithio i'r gwaith yn llai aml yn gwneud hynny ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r prif ragolygon heb unrhyw ymyriadau newydd fel a ganlyn:

- Bu gostyngiad canrannol uwch mewn teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus o gymharu â theithiau car, gan fod pobl sy'n penderfynu gweithio gartref yn fwy tebygol o fod yn rhai a fyddai'n teithio'n rheolaidd i ganolfannau trefol ar drên neu ar fws.
- Os yw 30% o'r gweithlu yng Nghymru yn gweithio gartref yn rheolaidd, gallai hyn arwain at ostyngiad o 25% yn nifer y cymudwyr rheolaidd sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- Gan gyfuno'r holl ddibenion teithio gyda'i gilydd, byddem yn disgwyl i'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus drwy'r dydd fod 5-10% yn is nag y byddai pe bai lefelau gweithio o bell cyn Covid yn parhau.
- O ganlyniad, mae mwy o weithio o bell ar ôl Covid yn debygol o arwain at gynnydd yng nghyfran teithiau car o ddulliau teithio (felly mae cyfrannau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn lleihau). Mae modelu cyffredinol yn

awgrymu y bydd mwy o weithio o bell yn arwain at lai o dagfeydd ar ffyrdd mewn ardaloedd trefol (fel y gwelwyd yn ystod y pandemig), sy'n golygu bod y car yn dod yn opsiwn mwy deniadol i'r rhai sy'n dal i deithio i'r gwaith. Ar gyfer ardaloedd trefol megis Caerdydd, mae llai o dagfeydd yn ystod oriau brig ar lwybrau rheiddiol allweddol yn golygu bod y rheilffyrdd yn colli rhywfaint o'r fantais amser a fyddai ganddynt fel arall dros y car.

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael am y defnydd o fysiau yn awgrymu bod y defnydd wedi adfer i tua 60% o'r lefelau cyn Covid ar wasanaethau bysiau lleol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio rhwng ardaloedd a llwybrau penodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o alluogi 30% o weithwyr Cymru i weithio o bell, ac mae wedi nodi'r manteision allweddol canlynol i'r polisi:-
- lleihad mewn amser a chostau teithio
- mwy o hyblygrwydd a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- cynhyrchiant uwch
- llai o draffig, yn enwedig ar adegau prysur
- llai o lygredd aer a sŵn;
- cyfle i ailddylunio trefi a chanol dinasoedd.

Paratowyd Asesiad Effaith Integredig ym mis Ebrill 2021 i archwilio'r dystiolaeth a phrofi'r rhagdybiaethau sy'n sail i bob un o'r manteision tybiedig, gweld lle mae angen rhagor o dystiolaeth a nodi lle mae'n debygol y bydd angen mesurau lliniaru posibl.

Er mwyn cyflawni ei huchelgeisiau, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried amryw o fesurau ategol. Mae'r rhain yn cynnwys galluogi rhwydwaith o ganolfannau gweithio o bell sydd wedi'u lleoli'n agos at ble mae pobl yn byw (gan gynnig gweithle amgen i'r "swyddfa cwmni" draddodiadol), canllawiau i fusnesau / sefydliadau trydydd sector wrth baratoi eu gweithrediadau ar gyfer gweithio o bell neu weithio datganoledig, a chymorth i unigolion (cyngor, gwasanaethau TGCh, offer a chymorth lles).
Mae'r polisi'n cydgysylltu â meysydd polisi eraill megis strategaeth drafnidiaeth, Gwaith Teg Cymru ac adfywio canol trefi a dinasoedd. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn nodi'r cysylltiadau hyn ac yn darparu asesiad trawsbynciol a chynhwysfawr ar draws gwahanol feysydd effaith.

**Argymhelliad 14**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru osod llwybr ar gyfer cyflawni ei thargedau i wneud 50% o fysiau a 100% o dacsis/cerbydau hurio preifat yn ddi-allyriadau o'u pibelli mwg erbyn 2028, gan gynnwys manylion y gost ariannol sydd wedi'i hamcangyfrif a sut y caiff y gost hon ei thalu. Wrth wneud hynny, dylai ymgynghori â rhanddeiliaid yn y naill sector a'r llall.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, dan gadeiryddiaeth James Davies o Diwydiant Cymru, i ddatblygu cynlluniau ar gyfer Datgarboneiddio Bysiau a Chydgasglu Galw i gyflawni'r targedau o ran bysiau di-allyriadau. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth o blith gweithredwyr bysiau a'r sector gweithgynhyrchu. Bydd adroddiad terfynol gan y Grŵp yn cael ei lunio erbyn diwedd mis Mawrth 2022 a bydd cynlluniau cyflawni'n cael eu datblygu eleni. Mae fy swyddogion wedi bod yn drafftio Cynllun Gweithredu i ddatgarboneiddio tacsis a cherbydau hurio preifat sy'n manylu ar y camau sydd eu hangen i bontio i fod yn ddi-allyriadau o'u pibelli mwg erbyn 2028.  Bwriad Llywodraeth Cymru yw ymgynghori ar elfennau allweddol y Cynllun Gweithredu hwnnw fel rhan o'n hymgynghoriad Papur Gwyn ar gyfer y Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat arfaethedig.

**Goblygiadau ariannol** - Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Argymhelliad 15**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, rheolau grant trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac unrhyw ganllawiau am baratoi cynllun trafnidiaeth lleol/rhanbarthol yn cael eu diwygio i ymgorffori'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy a sicrhau gwerth am arian o fuddsoddiad a ariennir gan Lywodraeth  Cymru.**

**Ymateb: Derbyn**

Ar hyn o bryd, rydym yn diweddaru'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) i ymgorffori'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy a sicrhau bod penderfyniadau ar fuddsoddi mewn trafnidiaeth yn adlewyrchu gweledigaeth, blaenoriaethau ac uchelgeisiau Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Byddwn yn ymgynghori ar yr arweiniad newydd yn y gwanwyn.

Mae'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy yn nodi mai'r flaenoriaeth yw cynnal y seilwaith presennol a gwneud y defnydd gorau ohono, ond lle mae angen seilwaith newydd, dylid rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus dros gerbydau modur preifat. Mae'r Gronfa Ffyrdd Cydnerth yn darparu cyllid i awdurdodau lleol i gynnal ac atgyweirio rhwydweithiau trafnidiaeth gynaliadwy sy'n cael eu heffeithio gan effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r Gronfa Teithio Llesol yn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu eu rhwydweithiau teithio llesol ac mae'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu cynlluniau sy'n gwella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys seilwaith safleoedd bws, blaenoriaeth i fysiau, parcio a theithio rheilffordd a chyfnewidfeydd bws/rheilffordd. Mae cyllid ar gyfer cynlluniau ffyrdd lleol wedi'i oedi yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad o'r ffyrdd.

Bydd y canllawiau ar baratoi'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol newydd yn nodi sut mae angen i Gydbwyllgorau Corfforaethol bennu'r polisïau ar gyfer cyflawni gweledigaeth, blaenoriaethau ac uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn y rhanbarth. Dylai'r polisïau adlewyrchu'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy er mwyn

i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gael ei ystyried ar y cyd â Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Argymhelliad 16**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun sy'n cael ei ddatblygu gan Trafnidiaeth Cymru i gynyddu nifer y teithwyr ar ôl Covid. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys gwybodaeth am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn asesu ac yn monitro effeithiolrwydd y cynllun.**

**Ymateb: Derbyn**

Nod ymgyrch farchnata adferiad teithio aml-ddull Trafnidiaeth Cymru yw annog pobl i ystyried defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol a dychwelyd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol pan fyddant yn ailgysylltu â ffrindiau a theulu, yn ailddarganfod lleoedd ac yn dychwelyd i'r gwaith. Dros y tymor hir, ein nod yw annog pobl i newid eu hymddygiad a gwneud teithiau mwy cynaliadwy gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn hytrach na'r car, yn barhaus. Rydym am feithrin ymddiriedaeth pobl mewn trafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn iddynt ddeall y rheidrwydd iddynt newid ymddygiad ac i drafnidiaeth gyhoeddus ddatblygu i fod eu dull teithio o ddewis.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi gweithio ar sail newidiadau i batrwm cymudo pobl. O'r herwydd, maent wedi cyflwyno cynllun ar gyfer y gweithwyr hynny sy'n cymudo i'r swyddfa o bryd i'w gilydd, o'r enw Multiflex. Mae'r cynllun hwn yn galluogi pobl i gael 12 tocyn taith sengl am bris 10. Mae'r tocynnau hyn hefyd yn ddilys am 3 mis ar ôl eu prynu, yn wahanol i sawl rhan o'r DU lle nid ydynt ond yn para mis.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu cynnig ar gyfer ymgyrch yn seiliedig ar ddirnadaeth y gellir ei ddefnyddio ar draws gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i annog pobl i wneud teithiau cyflawn gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Maent wedi dyfeisio'r dull unedig hwn sy'n cyd-fynd â strategaethau ar gyfer cyfathrebu marchnata ar draws gwahanol fathau o drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol er mwyn cael mwy o effaith o ran newid ymddygiad a sicrhau gwell gwerth am arian cyhoeddus drwy wella effeithiolrwydd marchnata.

Bydd yr ymgyrch hefyd yn helpu i adeiladu brand sy'n gyfystyr â rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol, integredig a chynaliadwy y gall pobl fod yn falch ohono. Rydym yn gobeithio y bydd mwy o ymgysylltiad emosiynol â brand y gellir ymddiried ynddo yn gwneud i fwy o bobl ddewis Trafnidiaeth Cymru wrth gynllunio teithiau, prynu tocynnau a theithio.

**Argymhelliad 17**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynlluniau ariannu sydd dan ystyriaeth er mwyn galluogi gyrwyr cerbydau hurio preifat a thacsis i bontio i gerbydau trydan. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am ymgynghori â'r sector ynghylch y materion hyn.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym eisoes wedi sôn am ein Cynllun Gweithredu drafft a'r Papur Gwyn arfaethedig ar y Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat o dan argymhelliad 14. Yn ogystal, mae Trafnidiaeth Cymru yn cynnal arolwg gyrwyr sy'n cynnwys cwestiynau ynghylch mesurau cymorth a fyddai'n helpu gyda phontio a bydd gwerthuso'r cynllun Rhoi Cynnig Cyn Prynu sy'n gweithredu ar hyn o bryd fel menter beilot yn chwarae rhan bwysig o ran helpu i lunio cynigion polisi yn y dyfodol. Defnyddir yr allbwn o hyn ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid fel rhan o baratoadau'r Papur Gwyn i bennu unrhyw gyllid ar gyfer pontio yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol** - Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y gellid mynd i'r afael â'r ôl-groniad sylweddol o waith cynnal a chadw ffyrdd a phriffyrdd ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a'r rhwydwaith cefnffyrdd.**

**Ymateb: Derbyn**

Cyllideb Gyfalaf ar gyfer Gweithrediadau Rhwydwaith
Mae paragraff 56 yn nodi "cynnydd yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 'gweithrediadau rhwydwaith'". Er eglurder, dylid nodi bod y ddwy linell wariant hanesyddol yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd strategol (seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol a gweithrediadau rhwydwaith) wedi'u huno at ddibenion y gyllideb ddrafft. Mae angen y llinell wariant gweithrediadau rhwydwaith, yn ogystal ag ymdrin â gweithrediadau cynnal a chadw a chontractau cynnal a chadw, i gyflawni'r ymrwymiadau cytundebol parhaus ar gyfer y prosiectau hynny a oedd eisoes yn cael eu hadeiladu (gwerth net o tua £41 miliwn ar gyfer 22/23). Felly, £84 miliwn yw'r gyllideb gyfalaf sydd ar gael ar gyfer gweithrediadau rhwydwaith yn 22/23, sy'n ostyngiad o £22 miliwn o gymharu â'r dyraniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol, o ganlyniad i'r setliad cyfalaf cyfyngedig a gafodd Llywodraeth Cymru fel rhan o Adolygiad Gwariant y DU a'r dewisiadau anodd y bu'n rhaid eu gwneud Er y bydd ymrwymiadau cytundebol sy'n weddill yn lleihau yn y dyfodol, bydd angen talu gwerth yr ymrwymiadau hynny o'r llinell wariant gweithrediadau rhwydwaith yn y dyfodol.

Y Rhwydwaith Cefnffyrdd
Y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yw'r ased mwyaf, a phwysicaf y gellid dadlau, y mae Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol gyfrifol amdano. Gyda gwerth amnewid gros o dros £18 biliwn, mae'n cario mwy nag 11 biliwn cilometr cerbyd y flwyddyn, sef traean o'r holl draffig yng Nghymru. Mae'n darparu cysylltedd hanfodol a manteision economaidd enfawr, ac mae'r ffordd y caiff ei weithredu, ei gynnal a'i wella yn gwneud cyfraniad allweddol at gyflawni blaenoriaethau yn Llwybr Newydd,

Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru. Yn benodol: mae Blaenoriaeth 2 – caniatáu i bobl a nwyddau symud yn rhwydd - yn dibynnu'n fawr ar seilwaith trafnidiaeth diogel sydd wedi'i gynnal a'i reoli'n dda ac sydd wedi'i ddiogelu at y dyfodol i addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd unrhyw ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn arwain at ased cefnffyrdd sy'n dirywio, gydag effeithiau canlyniadol ar ddiogelwch a heriau o ran enw da a heriau cyfreithiol i Weinidogion Cymru gan y gall arwain at:

- Fwy o risgiau diogelwch e.e. concrit yn disgyn o bontydd, colofnau golau'n cwympo a systemau atal cerbydau yn methu ag atal cerbydau yn ddiogel
- Cau ffyrdd a therfynau pwysau i atal cwympiadau strwythurol
- Llai o wydnwch yn y rhwydwaith yng ngoleuni effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
- Mwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr o giwiau traffig i fynd drwy rannau cyfyngedig o'r rhwydwaith, neu ddargyfeirio o'u cwmpas, ac ymweliadau mynych â'r un rhannau o'r rhwydwaith i fynd i'r afael ag asedau diffygiol
- Costau uwch yn y tymor byr, canolig a hir

Er mwyn mynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn, datblygwyd rhaglen adnewyddu asedau mawr i'w chyflawni dros gyfnod o 5 i 10 mlynedd yn dibynnu ar y cyllid sydd ar gael. Nod y rhaglen yw mynd i'r afael â'r ôl-groniad ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a gwella ei allu i wrthsefyll effeithiau rhagweladwy y newid yn yr hinsawdd.

Datblygwyd rhaglen ragarweiniol o welliannau i tua 25 o gynlluniau, gyda chostau'n amrywio o tua £5 miliwn i £200 miliwn fesul cynllun.  Mae angen rhagor o waith i nodi cwmpas llawn y gwelliannau angenrheidiol.

Sefydlwyd panel annibynnol i adolygu'r rhaglen hon i ystyried a yw'r dull a fabwysiadwyd wrth ddatblygu'r rhaglen adnewyddu asedau mawr yn cydbwyso'r angen i Weinidogion Cymru gyflawni eu dyletswyddau statudol fel awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith heb orfod gwario mwy na'r angen a chan ddangos gwerth am arian.  Disgwylir adborth gan y panel o fewn y mis nesaf.

Unwaith i adborth gan y panel gael ei dderbyn a'i ystyried, ceisir cymeradwyaeth i gychwyn gwaith paratoi sy'n angenrheidiol i ddatblygu cwmpas a strategaeth gaffael ar gyfer y rhaglen fel y gellir nodi lefel a ffynonellau'r cyllid sydd eu hangen i gyflawni'r rhaglen.

Ystyrir bod nodi graddfa ac amserlen gyflawni'r rhaglen yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cadwyn gyflenwi fedrus yn cael ei chadw/datblygu yng Nghymru mewn marchnad sy'n dioddef o brinder adnoddau wedi'i sbarduno gan fuddsoddiad mawr mewn seilwaith mewn rhannau eraill o'r DU, er enghraifft, HS2, rhaglen Cronfa Seilwaith Tai Llywodraeth y DU a rhaglen gyflenwi National Highways, yn ogystal â chyfleoedd ar dir mawr Ewrop.

<u>Rhwydwaith Ffyrdd Lleol</u>
Cyflwynwyd y Gronfa Ffyrdd Cydnerth yn 2020-21 i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thrafferthion a achosir gan dywydd garw i'r rhwydwaith priffyrdd, yn enwedig i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus.

Darparwyd cyllid cyfalaf o £25 miliwn yn 2020-21 ac £20 miliwn yn 2021-22. Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, mae ceisiadau am gyllid ar gyfer 2022-23 wedi'u cyfyngu i gynlluniau presennol yn unig, a bydd hyn yn effeithio ar allu awdurdodau lleol i gyflwyno mesurau atal llifogydd ar eu rhwydweithiau priffyrdd.

Os bydd rhagor o gyllid cyfalaf yn dod ar gael ym mlwyddyn 2022-23, gellid blaenoriaethu’r Gronfa Ffyrdd Cydnerth ar gyfer cyllid ychwanegol
Sefydlwyd Rhaglen Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus Llywodraeth Leol yn 2018. Dyfarnwyd cyfanswm blynyddol o £20 miliwn i Awdurdodau Lleol (drwy fformiwla) er mwyn iddynt wneud cynnydd yn erbyn yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

Gellid ystyried ailsefydlu'r rhaglen hon fel ffordd o gefnogi Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r ôl-groniad.

Mae cyllid yn cael ei ddarparu hefyd i'r awdurdodau lleol ar gyfer arolwg rheoli asedau 20mya ar gyfer arwyddion a llinellau 20mya. Bydd Awdurdodau Lleol yn cael cyfle i gynhyrchu cronfa ddata rheoli asedau lawn ar gyfer eu rhwydweithiau ffyrdd am gost is, wrth gynnal yr arolwg 20mya.

Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi'r awdurdodau lleol i ariannu hyn gan y byddai'n galluogi awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn ffordd fwy rhagweithiol yn y dyfodol.

**Argymhelliad 19**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r sail ar gyfer y penderfyniad i beidio â pharhau â'r Grant Adnewyddu Priffyrdd Cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw asesiad a wnaed o effaith y penderfyniad ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, yn ogystal â gwerth am arian o ran cynnal a chadw priffyrdd lleol, diogelwch ffyrdd ac ati.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r sail ar gyfer y penderfyniad hwn fel a ganlyn. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am atgyweirio a chynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd lleol ac mae awdurdodau lleol yn cael eu hariannu drwy ystod o grantiau penodol a grantiau heb eu neilltuo Llywodraeth Cymru, y dreth gyngor, ardrethi annomestig a ffioedd a thaliadau. Gall atgyweirio a chynnal a chadw priffyrdd alw am gyllidebau refeniw neu gyfalaf yn dibynnu ar y gwaith sy'n cael ei wneud. Fel y nodwyd yn naratif cyllideb Llywodraeth Cymru, mae'r cyllid cyfalaf cyffredinol ar gyfer Cymru yn gostwng mewn termau arian parod ym mhob blwyddyn o gyfnod yr Adolygiad o Wariant ac mae 11 y cant yn is yn 2024-25 nag yn y flwyddyn bresennol. Mae hyn, a'n ffocws ar Gymru wyrddach, wedi ein harwain i gynnal adolygiad sylfaen sero o gyllidebau cyfalaf cyffredinol i greu Cynllun Cyllid Seilwaith tair blynedd newydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cyfalaf ychwanegol sy'n gyfyngedig o ran amser ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd i Awdurdodau Lleol ers 2017-18 (£30 miliwn yn 2017-18 a £60 miliwn o gyllid cyfalaf cyffredinol i awdurdodau lleol dros dair blynedd h.y. £20 miliwn yn 2018-19, 2019-20 a 2020-21). Roedd effaith y cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus ledled y DU yn golygu bod awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd, ond rydym ni ac awdurdodau lleol yn cydnabod y gall gwaith cynnal a chadw effeithiol leihau'r angen am waith atgyweirio mwy costus. Mae gwariant refeniw a chyfalaf awdurdodau lleol ar drafnidiaeth wedi cynyddu o ganlyniad i'w buddsoddiad nhw a Llywodraeth Cymru yn ystod 2017-2021.

Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar grant cyfalaf ychwanegol pellach gwerth £70 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer 2021-2022 y gallant ei ddefnyddio i ymateb i'w blaenoriaethau eu hunain, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw ffyrdd wedi'i gyfalafu. Mae setliad refeniw Llywodraeth Leol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn cynyddu 9.4% ar sail tebyg am debyg erbyn 2022-2023, a'r cynnydd isaf ar gyfer unrhyw awdurdod yw cynnydd o 8.4%.

Er y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ystyried darparu cyllid refeniw neu gyfalaf penodol ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd drwy barhau â'r grant Adnewyddu Priffyrdd, byddai hyn wedi bod ar draul y cyllid cyffredinol hwn sy'n caniatáu i awdurdodau lleol wneud eu dewisiadau lleol eu hunain ar flaenoriaethau.

**Argymhelliad 20**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw wedi newid ei dull o ddyrannu refeniw i awdurdodau lleol er mwyn ystyried y perygl o lifogydd yn awr ac yn y dyfodol, yn unol ag argymhelliad y pwyllgor a'n rhagflaenodd.**

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi cadarnhau y bydd dyraniadau refeniw llifogydd ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn £225,000, sef cynnydd o 114% o ddechrau'r flwyddyn ariannol bresennol hon.

Wrth symud ymlaen, gyda'r cynnydd mewn refeniw ar gyfer gweithgareddau rheoli perygl llifogydd, bydd angen i ni weithio gyda phob Awdurdod Rheoli Risg, y 22 awdurdod lleol a CNC i ddeall eu hangen a pha fudd a chynnydd ychwanegol y gallai dyraniadau yn y dyfodol eu darparu. Mae dyrannu refeniw blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar berygl llifogydd a/neu erydu arfordirol nawr neu yn y dyfodol yn rhywbeth y gallem ei ystyried, yn dilyn trafodaethau manwl gyda'r Awdurdodau Rheoli Risg.

**Argymhelliad 21**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar y gwaith y mae wedi'i wneud i asesu'r gost sy'n gysylltiedig â'r adolygiad annibynnol o lifogydd mis Chwefror 2020. Dylai hyn gynnwys manylion ynghylch ble bydd y costau'n disgyn a dyraniadau cyfatebol yn y gyllideb.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae gwaith cwmpasu ar adolygiad annibynnol o'r adroddiad Adran 19 a gyhoeddwyd yn dilyn llifogydd mis Chwefror 2020 wedi cychwyn. Unwaith y bydd y gwaith cwmpasu hwn wedi'i gwblhau a'r mecanwaith cyflawni wedi'i sefydlu, byddwn mewn gwell sefyllfa i ddeall y costau sy'n gysylltiedig ag adolygiad o'r fath.

**Argymhelliad 22**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad yr adolygiad rheoleiddiol o reoli perygl llifogydd, gan gynnwys y camau nesaf.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Is-bwyllgor y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCEC) yn parhau i weithio ar dair ffrwd waith, gan edrych ar reoli asedau rheoli perygl llifogydd; rolau a chyfrifoldebau ac addasu a gwydnwch. Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd â sgyrsiau sy'n digwydd gyda Chomisiwn y Gyfraith.
Disgwylir i adroddiad yr FCEC ar rolau a chyfrifoldebau gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mai 2022. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi, byddwn mewn gwell sefyllfa i drafod y camau nesaf.

**Argymhelliad 23**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion y gwaith a wnaed i asesu'r costau sy'n gysylltiedig â gorfodi Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 ac egluro pam nad yw'r costau hyn wedi'u hadlewyrchu yn nyraniad y gyllideb.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i gadw Cymorth Grant craidd CNC yn £60 miliwn ar gyfer 2022-23, gan ddarparu cynnydd ychwanegol o £1.5 miliwn mewn refeniw ar gyfer ei raglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, o £21 miliwn i £22.5 miliwn yn 2022-23.

Yn dilyn cwblhau ei adolygiad sylfaenol yn ddiweddar, mae CNC yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd-ddylunio cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer pob maes polisi/cyflenwi sy'n diffinio'r lefel ddisgwyliedig o wasanaeth, y metrigau ar

gyfer mesur perfformiad y gwasanaeth hwnnw a'r cyllid cysylltiedig sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth y cytunwyd arno. Bydd y gwaith o ddatblygu'r cytundebau lefel gwasanaeth yn cael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2022, a rhagwelir y byddant yn cynnwys gweinyddu Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Yn yr achos hwn, bydd datblygu'r cytundebau lefel gwasanaeth yn archwilio'r berthynas rhwng cyflawni swyddogaethau statudol sy'n bodoli eisoes sydd wedi'u dwyn ymlaen o fewn y Rheoliadau, gan gynnwys y swyddogaethau hynny na fyddant yn cael eu disodli tan ddiwedd y cyfnodau pontio perthnasol, ac unrhyw gyfrifoldebau newydd.

**Argymhelliad 24**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid y corff yn y dyfodol yn gymesur â'i swyddogaethau a'i gyfrifoldebau. Disgwyliwn weld cynnydd yng nghyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn canlyniad yr adolygiad o'r llinell sylfaen.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr egwyddor y dylai CNC dderbyn cyllid sy'n gymesur â'i rôl a'i gyfrifoldebau. Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau bod gan CNC y prosesau cywir ar waith a fydd yn ei alluogi i ymateb yn effeithiol i'r ddau argyfwng a sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol gorau i bobl Cymru. Rhaid sicrhau Llywodraeth Cymru y bydd unrhyw gynnydd mewn cyllid yn cael ei ddilyn gan gynnydd cyfrannol yn lefel y gwasanaeth y mae'n ei dderbyn. Bydd yr adolygiad sylfaenol yn ystyried y ddau fater hyn ochr yn ochr a bydd ei ganfyddiadau'n llywio ein cyllideb derfynol.

**Argymhelliad 25**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r diffyg cynnydd o ran dynodi Ardaloedd Morol Gwarchodedig a Pharthau Cadwraeth Morol, a rhoi amserlen ar gyfer eu dynodi.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymateb i'r pandemig Covid-19 a materion parhaus ar ôl i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. O ganlyniad, mae hyn wedi arwain at adleoli mwy o swyddogion dros dro i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth hyn yn 2021, gan gynnwys y gangen bioamrywiaeth a chadwraeth forol sy'n cyflawni'r rhaglen dynodi Parthau Cadwraeth Morol.

Fodd bynnag, rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i'r rhaglen waith hon, ac mae cynnydd sylweddol wedi’i wneud ar ddogfennau cyn ymgynghori cyn ymarfer ymgysylltu y disgwylir iddo gael ei lansio'n fuan.

**Argymhelliad 26**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:
**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y bydd yn cefnogi cynnydd mewn casglu tystiolaeth forol a rhannu data, i'r raddfa sy'n angenrheidiol i ymateb i'r cynnydd a ragwelir mewn datblygiadau ynni adnewyddadwy morol.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae'r cynnydd mewn casglu tystiolaeth forol a rhannu data, i'r raddfa sy'n angenrheidiol i ymateb i'r cynnydd a ragwelir mewn datblygiadau ynni adnewyddadwy morol, yn cael ei ystyried drwy adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o gapasiti tystiolaeth, adnoddau a gwydnwch ar draws Is-adran y Môr a Physgodfeydd. Darperir yr wybodaeth ddiweddaraf pan fydd y broses honno wedi dod i ben.

**Goblygiadau Ariannol –** Daw'r costau ar gyfer yr adolygiad o gyllidebau sy'n bodoli eisoes, ond bydd cyflwyno rhaglen waith o'r fath yn gofyn am gymorth ariannol a chymorth staff helaeth, ac nid yw graddfa'r cymorth hwn yn hysbys ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 27**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Cyn diwedd mis Mawrth 2022, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed tuag at ddatblygu Bil llywodraethu amgylcheddol. Dylai hyn gynnwys manylion unrhyw waith sydd wedi'i wneud, neu waith sydd ar y gweill, i asesu'r gost sy'n gysylltiedig â chorff llywodraethu amgylcheddol newydd.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi'i diweddaru yn ailddatgan ein hymrwymiad i weithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol.

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu mesurau dros dro. Penodwyd yr Asesydd Dros Dro ym mis Ionawr 2020 i ystyried pryderon ynghylch gweithrediad cyfraith amgylcheddol. Lluniwyd canllawiau ar yr egwyddorion amgylcheddol i sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu hymgorffori mewn polisïau a phenderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru. Bydd y mesurau dros dro yn ein galluogi i brofi ein dull o ymdrin â phryderon am gyfraith amgylcheddol ac ystyried manteision mesurau o'r fath wrth nodi tueddiadau mewn cyfraith amgylcheddol.

Mae swyddogion wedi parhau â'r gwaith o ddatblygu dull llywodraethu amgylcheddol parhaol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud yn unol ag argymhelliad y Grŵp Gorchwyl y dylid defnyddio model Comisiwn ar gyfer corff newydd, ac mae'n cynnwys ystyriaeth o'i swyddogaethau a'i ofynion staffio ac ariannol. Byddwn yn ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid ynghylch y dull parhaol.

Mae swyddogion wedi gwneud gwaith cychwynnol i asesu'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu a chynnal corff llywodraethu amgylcheddol newydd. Mae ystyriaeth o'r fath wedi cynnwys dadansoddiad cymharol o gyrff o faint tebyg sydd wedi'u cyfansoddi ledled y DU.  Caiff hwn ei ddiweddaru wrth i ddata ddod ar gael gan gyrff tebyg eraill, a hefyd drwy waith ein Hasesydd Dros Dro.

Mae'r gyllideb ddrafft yn cwmpasu 3 blynedd. Ffigurau dangosol yw’r rhai ar gyfer 23/24 a 24/25.

**Argymhelliad 28**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru esbonio sut y bydd yn asesu ac yn monitro effaith penderfyniadau gweithredu a gwariant ar adfer byd natur ar draws y Llywodraeth.**

**Ymateb: Derbyn**

Bydd monitro a gwerthuso effeithiol yn elfen annatod o'n holl raglenni a mentrau i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Byddwn yn adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol o fewn Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) a'i holynydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ddatblygu dull cadarn ac arloesol o fonitro ein rhwydwaith a’n safleoedd dynodedig. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) i dreialu'r defnydd o ddata arsylwi'r ddaear amledd uchel iawn ac eglur iawn ar gyfer monitro ar draws ein holl adnoddau naturiol.

Mae cyllid yn cael ei ddarparu hefyd i Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERC) i gefnogi gwyddoniaeth dinasyddion a'r sector eNGO gwirfoddol wrth gasglu data.

**Argymhelliad 29**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r cylch gorchwyl a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r dadansoddiad manwl ym maes bioamrywiaeth cyn gynted â phosibl.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Bydd y dadansoddiad manwl yn canolbwyntio ar weithredu *Targed 30 erbyn 30 Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol*.

*‘Ensure that at least 30 per cent globally of land areas and of sea areas, especially areas of particular importance for biodiversity and its contributions to people, are*

*conserved through effectively and equitably managed, ecologically representative and well-connected systems of protected areas and other effective area-based conservation measures, and integrated into the wider landscapes and seascapes.'*

Bydd cylch gorchwyl yr archwiliad manwl o fioamrywiaeth yn cael ei gadarnhau gan y grŵp rhanddeiliaid unwaith y bydd y broses wedi'i chychwyn, ac maent wedi cynnal eu cyfarfod cyntaf. Yna, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r cylch gorchwyl, y gellir ei rannu â CCEI bryd hynny.

Bydd yr archwiliad manwl yn cael ei gychwyn ar ôl hanner tymor mis Chwefror gyda'r bwriad o gwblhau'r trafodaethau manwl ym mis Mai. Bydd Datganiad Ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi sy'n cynnwys argymhellion ar ôl i'r dadansoddiad manwl ddod i ben.

**Argymhelliad 30**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran datblygu targedau bioamrywiaeth a gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer eu cyflwyno.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyrraedd y targed 30 erbyn 30, i ddynodi 30% o dir a chefnfor erbyn 2030.

Er mwyn cyflawni'r targed 30 erbyn 30, bydd angen mwy na dynodi'n unig; bydd angen i'r ardaloedd morol a daearol dan sylw gael eu rheoli'n effeithiol, bod yn gynrychiadol yn ecolegol ac yn rhan o systemau sydd wedi'u cysylltu'n dda.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chymheiriaid eraill yn y DU drwy Grŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad a JNCC i ddatblygu set gyffredin o egwyddorion.

Mae swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd gydag eNGOs a gwyddonwyr cadwraeth i drafod y dull gweithredu arfaethedig a gafodd groeso eang.

Fel y nodwyd yn argymhelliad 29, bydd yr archwiliad manwl o fioamrywiaeth yn canolbwyntio ar y ffordd orau o gyrraedd y targed hwn erbyn diwedd y degawd, beth yw'r heriau a sut rydym yn goresgyn y rhain.

Bydd angen cyfrwng deddfwriaethol ar dargedau statudol. Bydd y rhaglen ddeddfwriaethol yn y dyfodol yn cael ei chyhoeddi gan y Prif Weinidog maes o law.

**Argymhelliad 31**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru ddatgan ei safbwynt am y cynnig i greu Gwasanaeth Natur Cenedlaethol a rhoi syniad o ba bryd y disgwylir penderfyniad ar y cynnig. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar y penderfyniad hwnnw ar ôl iddo gael ei wneud.**

**Ymateb: Derbyn**

Ym mis Tachwedd y llynedd Cyfarfu'r Dirprwy Weinidog dros Newid Hinsawdd â Syr David Henshaw, , i drafod gwaith y Grŵp Adfer Gwyrdd, y mae'n ei Gadeirio. Yn ystod y cyfarfod, amlinellodd Syr David gynigion y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol a gychwynnwyd gan y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad a CGGC. Cytunwyd bod Syr David a'i Grŵp yn cysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio cynllun manylach ar gyfer y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol, gan osod gweledigaeth ar gyfer dyfodol Cymru a "glanio" yr ardaloedd peilot.

Mae gan y Gwasanaeth Natur Cenedlaethol y potensial i gyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygu Sgiliau Gwyrdd, fel galluogwr allweddol ar gyfer sero net, drwy gysylltu pobl o bob oed â chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn seiliedig ar natur, prentisiaethau, cyflogaeth, menter a gwirfoddoli. Bwriad y Gwasanaeth yw canolbwyntio ar wella sgiliau'r gweithlu drwy weithredu ymarferol ac ysgogi creu swyddi gwyrdd ar gyfer economi'r dyfodol. O'r herwydd, gallai fod yn gyfrannwr defnyddiol tuag at gyflawni ein Gwarant Pobl Ifanc i roi'r cynnig o waith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb o dan 25 oed. O dan Sero Net Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net Cymru. Cynigir "dull Tîm Cymru", a byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid wrth ei ddatblygu.

Mae'r Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad a CGGC wedi anfon rhagor o wybodaeth yn ddiweddar, yn nodi eu cynigion ar gyfer cynllun peilot o'r Gwasanaeth Natur Cenedlaethol yn ardal Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru, ar draws y llywodraeth, yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Adferiad Gwyrdd, y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad a CGGC ar y manylion ynghylch rhai pwyntiau sy'n weddill, gan gynnwys opsiynau llywodraethu. Bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am y canlyniad.

**Argymhelliad 32**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn y 6 mis nesaf am y cynnydd sy'n cael ei wneud i weithredu argymhellion y gwaith dadansoddi manwl ar y rhwystrau i blannu coed.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae tri o'r argymhellion yn yr archwiliad manwl wedi'u cwblhau. Lansiodd Llywodraeth Cymru y Grant Buddsoddi mewn Coetir i ariannu coetiroedd newydd a gwelliannau i goetiroedd presennol ym mis Gorffennaf 2021, gyda naw prosiect yn

cael eu dewis ar gyfer cyllid. Agorwyd cynllun peilot ar gyfer cynllunio creu coetiroedd ym mis Medi 2021, ynghyd â ffenestr 11 Cynllun Creu Coetir Glastir.

Mae 28 o'r argymhellion yn parhau. Cyhoeddwyd manylion y gefnogaeth i bob aelwyd yng Nghymru i blannu coeden ym mis Rhagfyr 2021. Sefydlwyd gweithgor cyllid coetiroedd i ystyried modelau i ddenu buddsoddiad mewn creu coetiroedd, gydag argymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Weinidogion. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu cynllun ariannu creu coetiroedd newydd, gan gynnwys trafodaethau gyda rhanddeiliaid i adolygu newidiadau posibl i gynllun Glastir. Mae CNC wedi cyflwyno dull desg newydd o ymdrin â chynlluniau coetir risg isel i symleiddio'r broses o gymeradwyo'r cynlluniau hynny.

Nid yw'r gwaith ar wyth o'r argymhellion wedi cychwyn eto, gan fod adnoddau wedi'u blaenoriaethu i gyflawni'r argymhellion mwyaf brys.

**Argymhelliad 33**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am waith y grŵp sy'n ystyried materion yn ymwneud â defnyddio cyllid preifat i ariannu plannu coed ar y raddfa sy'n angenrheidiol.**

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Gweithgor Cyllid Coetir wedi cyflwyno ei argymhellion i Weinidogion. Bydd yr argymhellion yn cael eu cyhoeddi'n llawn unwaith y bydd Gweinidogion wedi'u hystyried a chytuno ar y camau nesaf.

**Argymhelliad 34**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn y 6 mis nesaf am y nifer sy'n manteisio ar y cynllun i roi coeden i unigolion ei phlannu neu goeden i'w phlannu ar eu rhan. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y meini prawf a ddefnyddir i benderfynu a yw'r cynllun wedi bod yn llwyddiant.**

**Ymateb: Gwrthod**

Er bod 5,000 o goed ar gael ym mis Mawrth eleni, bydd y rhan fwyaf o'r coed ar gael o fis Tachwedd. Cesglir data ar y defnydd o'r cynllun, nifer y coed a blannwyd a nifer y bobl sydd wedi ymgysylltu â'r ymgyrch yn uniongyrchol (gan gynnwys gwirfoddolwyr yn helpu i gyflawni'r ymgyrch) ac yn anuniongyrchol. Bydd llwyddiant y cynllun yn cael ei farnu yn seiliedig ar nifer y coed a blannwyd a'r effaith ar agweddau pobl tuag at blannu coed fel rhan o'r ymdrech i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Gan fod y rhan fwyaf o'r plannu yn debygol o ddigwydd yn y tymor plannu

nesaf (gaeaf 2022), dylai'r adroddiad gael ei gyflwyno ymhen 12 mis pan fydd data mwy ystyrlon ar lwyddiant yr ymgyrch ar gael.

**Argymhelliad 35**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw wedi meintioli diffyg cyllid penodol gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chysylltedd digidol. Os hynny, dylai ddarparu manylion unrhyw dargedau cysylltedd y mae'r ffigur yn seiliedig arnynt. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw ei dyraniadau cyllidebol yn y maes hwn yn ddigonol i fodloni unrhyw ddiffyg cyllid gan Lywodraeth y DU.**

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.**

Nid yw polisi telathrebu wedi'i ddatganoli i Gymru. Mater i Lywodraeth y DU yw unrhyw fuddsoddiad yn y maes hwn. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn cynnal Adolygiad o'r Farchnad Agored a phroses ymgynghori â'r cyhoedd i ddeall nifer y safleoedd yng Nghymru na fydd yn elwa ar gyflwyno band eang gigabit a sbardunir yn fasnachol ac, o ganlyniad, graddfa a pharamedrau'r ymyriad cyhoeddus sydd ei angen.

Mae swyddogion yn gweithio gyda swyddogion Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU ar y sail mai Llywodraeth y DU fydd yn talu'r gost lawn o gysylltu'r holl safleoedd sy'n weddill yng Nghymru (y tu hwnt i'r gwaith cyflawni parhaus o dan gynlluniau presennol Llywodraeth Cymru). Hyd nes y bydd yr Adolygiad o'r Farchnad Agored wedi'i gwblhau yn ddiweddarach eleni, nid yw'n glir faint o safleoedd yng Nghymru fydd yn gymwys i gael ymyriad â chymhorthdal.

Bydd caffael yn digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a bydd yn tynnu sylw at y gost o ddarparu Prosiect Gigabit yng Nghymru. Bydd yr wybodaeth hon, o'i chydbwyso yn erbyn y cyllid sydd ar gael gan Drysorlys y DU, yn dangos unrhyw ddiffyg cyllid posibl o ran darparu band eang gigabit i bob safle yng Nghymru.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru gyllid i wneud iawn am unrhyw ddiffyg cyllid oherwydd diffyg cyllid yn y DU. Nid yw polisi telathrebu wedi'i ddatganoli i Gymru, felly mae unrhyw fuddsoddiad yn y maes hwn yn fater i Lywodraeth y DU yn bennaf oll.

Mae prosiect Rhwydwaith Gwledig a Rennir Llywodraeth y DU a'r diwydiant ffonau symudol yn bwriadu darparu cysylltedd 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr i 80 y cant o dir Cymru. Ar hyn o bryd, ac er gwaethaf amryw o geisiadau i Lywodraeth y DU a'r diwydiant, nid oes gennym eglurder ynghylch yr ardaloedd hynny a fydd heb ddarpariaeth 4G o ansawdd da. Dim ond ar ôl i ni gael yr wybodaeth honno y byddwn yn gallu deall ble mae'r bylchau a pha gamau pellach fydd eu hangen.

Eitem 5.2

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

7 Mawrth 2022

Annwyl Gadeiryddion,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod rhithwir o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd yn cael ei gynnal ar 9 Mawrth. Rwy'n ymddiheuro am gysylltu ar fyr rybudd. Mae'r cyfarfod wedi cael ei gadarnhau heddiw.

Byddaf i'n cynrychioli Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar gynnwys yr ymgynghoriad sy'n dod am ddatblygu'r Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU.

Bydd yr Awdurdod ETS y DU yn cyhoeddi cyd-hysbysiad ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 5.3

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
–
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
–
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

10 Mawrth 2022

Annwyl Weinidog,

**Fframweithiau Cyffredin dros dro ar gyfer Ansawdd Aer, Cemegion a Phlaladdwyr**

Diolch i chi am ddod i'n cyfarfod ar 17 Chwefror 2022 i roi tystiolaeth ar y Fframweithiau Cyffredin dros dro ar gyfer Ansawdd Aer, Cemegion a Phlaladdwyr ('y Fframweithiau'). Yn dilyn y cyfarfod, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth a/neu eglurhad ynghylch y materion isod.

**Cyffredinol**

1. A allwch egluro'r broses ar gyfer penderfynu a fyddai newid polisi arfaethedig o fewn cwmpas y Fframweithiau?

2. A allwch gadarnhau a fydd newidiadau i bolisi domestig a chyfraith nad ydynt yn newid cyfraith berthnasol a ddargedwir gan yr UE o fewn cwmpas y Fframweithiau? Yn benodol, a allwch gadarnhau a fydd y Bil Aer Glân (Cymru) arfaethedig o fewn cwmpas y Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer?

3. A allwch gadarnhau na fydd y Fframwaith Ansawdd Aer yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar y darpariaethau y byddech yn eu cynnwys yn y Bil Aer Glân (Cymru)?

4. A allwch chi amlinellu eich dealltwriaeth chi o effeithiau ymarferol y Fframweithiau hyn ar arfer cymhwysedd deddfwriaethol?

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

5. A allwch roi esboniad manwl o sut mae safbwyntiau rhanddeiliaid yng Nghymru (a ymatebodd i ymgynghoriad DEFRA) wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Fframweithiau? Pa ran a chwaraeodd Llywodraeth Cymru yn y broses hon?

6. Nid yw'r crynodeb o ymatebion y rhanddeiliaid i'r ymgynghoriad DEFRA wedi ei gyhoeddi eto. Beth yw eich safbwynt ar hyn, ac a ydych yn ystyried y byddai cyhoeddi'r ymatebion yn helpu i wella tryloywder?

7. Mae'r Fframweithiau yn darparu i'r llywodraethau ddefnyddio dulliau ar y cyd o ddatblygu cyfraith a pholisi. Sut y byddwch yn sicrhau nad yw hyn yn cyfyngu ar rôl y Senedd neu randdeiliaid yng Nghymru o ran llywio cyfraith a pholisi yng Nghymru?

## Adolygu a diwygio

8. Dywedoch wrth y Pwyllgor y bydd y Senedd a phartneriaid allanol yn cael cyfle i ymgysylltu â'r broses adolygu ar gyfer y Fframweithiau.

- Ai'r bwriad yw y bydd yr holl bartïon yn cytuno ar ddull cyffredin o ymgysylltu Seneddol yn y broses adolygu?
- Sut ydych chi'n rhagweld y bydd hyn yn gweithio yn ymarferol?
- Pam nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Fframweithiau?

## Datrys anghydfodau

9. A allwch gadarnhau ar ba gam y byddwch yn hysbysu'r Pwyllgor/y Senedd am anghydfodau o dan y Fframweithiau, a sut byddwch yn gwneud hynny?

## Deddf Marchnad Fewnol y DU

10. Dywedasoch na fyddai Deddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar y Fframweithiau ac aethoch ymlaen i awgrymu eu bod yn diystyru'r Ddeddf. A allwch ddarparu eglurhad pellach am hyn?

## Safonau rheoleiddio ac adolygiad o gyfraith a ddargedwir gan yr UE

11. A allwch gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw i fyny â safonau'r UE ar gemegau ac ansawdd aer?

12. Sut ydych chi'n ymateb i'r awgrym nad yw'r DU wedi cadw i fyny â rheoliadau newydd REACH yr UE, a bod cyflymder rheoleiddio o dan REACH y DU yn arafach?

13. Mae'r UE yn y broses o adolygu REACH fel rhan o'i Strategaeth Cemegau ar gyfer Cynaliadwyedd newydd. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru a/neu y pedair gwlad i wneud yr un peth?

14. Sut ydych chi'n ymateb i bryderon bod safonau rheoleiddio yn y DU yn debygol o fod yn is nag yn yr UE, o leiaf yng nghamau cynnar rhaglen REACH y DU? Beth yw goblygiadau hyn?

15. Dywedasoch y byddai unrhyw gynigion ar gyfer dadreoleiddio yn Lloegr sy'n deillio o Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfraith a ddargedwir gan yr UE yn cael eu trafod drwy'r Fframweithiau. Fe wnaethoch awgrymu bod y Fframweithiau yn cynnig amddiffyniad rhag Llywodraeth y DU yn gosod dadreoleiddio yng Nghymru (neu'r gwledydd datganoledig eraill). A allwch ddarparu eglurhad pellach am hyn?

Rhwymedigaethau rhyngwladol

16. Dywedasoch fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am sedd mewn rhai grwpiau rhyngwladol. A allwch ddarparu rhestr o'r grwpiau hyn i helpu'r Pwyllgor i ddeall y cyfleoedd posibl y mae'r Fframweithiau yn eu cynnig i Lywodraeth Cymru?

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 6 Ebrill 2022, fan bellaf.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Mawrth 2022

Annwyl Llyr

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror mewn perthynas â diweddariad ar Fframweithiau.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar ymrwymiad blaenorol gan Lywodraeth Cymru i beidio â chwblhau Fframweithiau nes bod y Pwyllgorau wedi cwblhau'r gwaith craffu. Gallaf gadarnhau mai safbwynt Llywodraeth Cymru o hyd yw dim ond pan fydd pob deddfwrfa wedi cael cyfle i gwblhau'r broses graffu a darparu argymhellion y caiff Fframweithiau eu cwblhau.

Cododd y Pwyllgor nifer o ymholiadau hefyd ynglŷn â'r Fframwaith Sylweddau Ymbelydrol. Gweler fy ymatebion isod.

**<u>Cyffredinol</u>**

1. ***A allwch gadarnhau a yw'r Fframwaith Cyffredinol dros dro ar gyfer Sylweddau Ymbelydrol yn un o'r rhain? Os felly, pa asesiad a wnaed i weld pa mor effeithiol y mae wedi bod yn gweithredu?***

   Ers diwedd y cyfnod pontio, mae'r pedair llywodraeth wedi bod yn gweithio'n agos ar faterion polisi a gwmpesir o dan y fframwaith dros dro. Ochr yn ochr â hyn, mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r trefniadau llywodraethu perthnasol sy'n sail i'r fframwaith. Yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o bolisïau ar gyfer sylweddau ymbelydrol wedi'u cynnal ar y cyd, boed gyda Lloegr neu wledydd eraill Prydain Fawr neu'r DU. Fodd bynnag, lle yr ystyrir yn briodol, gall polisïau Cymru fod yn wahanol i rai'r cenhedloedd eraill.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

2. ***A allwch egluro sut a phryd y caiff y Fframwaith ei ddiwygio i adlewyrchu'r broses datrys anghydfod newydd y cytunwyd arni fel rhan o'r IPRR?***

   Bydd y Fframwaith yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r IGRR yn ystod y broses adolygu ar ôl craffu, cyn ei gwblhau. Mae'r broses hon yn debygol o gael ei rheoli'n ganolog er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson.

**Datblygu'r fframwaith dros dro**

3. ***Pa waith sydd wedi'i wneud i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru wrth ddatblygu'r Fframwaith? Sut mae barn rhanddeiliaid wedi'i hadlewyrchu yn y Fframwaith?***

   Cytunodd y pedair llywodraeth mai'r Grŵp Polisi Sylweddau Ymbelydrol (RSPG) fyddai'r fforwm mwyaf priodol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Fframwaith. Mae'r RSPG yn cynnwys rheoleiddwyr a rhanddeiliaid allweddol yn y maes polisi hwn gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n cyfarfod hyd at dair gwaith y flwyddyn.

   Ystyriwyd safbwyntiau ac adborth gan y grŵp ar gwmpas ac egwyddorion y Fframwaith yn ystod camau datblygu cynnar y drafftio ac fe'u hadlewyrchir yn y dogfennau cyhoeddedig.

   Bydd y pedair llywodraeth yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy'r RSPG, pan fo'n briodol, wrth weithredu'r Fframwaith.

   Ochr yn ochr â hyn, mae pwyntiau adolygu wedi'u trefnu sy'n cynnig cyfleoedd ychwanegol i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ac esblygu’r Fframwaith ymhellach.

**Gwneud penderfyniadau**

4. ***I ba raddau yr ydych yn fodlon bod y Fframwaith yn rhoi cyfle priodol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd wneud cyfraith a pholisïau i Gymru o fewn y maes cymhwysedd datganoledig hwn?***

   Nid yw'r Fframwaith yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wneud polisi na deddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru. Bydd gwahaniaethau mewn polisi neu ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig yn parhau i fod yn bosibl, a bydd y Fframwaith yn darparu llwybr mwy ffurfiol ar gyfer trafod naill ai llunio polisïau ar y cyd neu ar wahân yn gynnar. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r mecanwaith datrys anghydfodau os byddai gweinyddiaeth yn ystyried bod polisi gweinyddiaeth arall yn niweidiol e.e. ddim yn cydymffurfio â safonau rhyngwladol neu’n cael effaith niweidiol sylweddol mewn gwledydd eraill.

5. ***A allwch gadarnhau a fydd y Fframwaith yn effeithio ar unrhyw ddeddfwriaeth neu bolisi presennol neu arfaethedig Cymru yn y maes cymhwysedd datganoledig hwn ac os felly sut y bydd yn gwneud hynny?***

   Ar hyn o bryd ni fydd y Fframwaith yn effeithio ar ddeddfwriaeth na pholisi arfaethedig Cymru o fewn cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mae'n bwysig cadw'r gallu i fod yn wahanol i rannau eraill o'r DU os bernir ei bod yn briodol yn y dyfodol, hyd yn oed os nad yw amgylchiadau'r gwahaniaeth hwnnw wedi'u rhagweld eto.

**Rhwymedigaethau rhyngwladol**

6. ***A fydd y llywodraethau datganoledig yn mynychu cyfarfodydd perthnasol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA)?***

   Mae'r maes polisi a gwmpesir gan y Fframwaith hwn yn cyd-fynd â Chytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU. Felly, gall pwyllgorau arbenigol perthnasol TCA neu'r Cyngor Partneriaeth ystyried pynciau sy'n berthnasol i'r Fframwaith o bryd i'w gilydd.

   Pan fo agenda cyfarfod rhwng y DU a'r UE yn cynnwys eitem sy'n ymwneud â gweithredu mewn maes cymhwysedd datganoledig, dylai Llywodraeth y DU hwyluso presenoldeb Llywodraeth Ddatganoledig o lefel debyg i lefel cynrychiolwyr Llywodraeth y DU gyda disgresiwn terfynol o ran dirprwyaeth y DU yn fater i gyd-gadeirydd y DU. Dylai Llywodraeth y DU ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Llywodraethau Datganoledig eraill mor llawn â phosibl i baratoi ar gyfer y cyfarfodydd hyn waeth beth fo'u presenoldeb, ac ar yr holl faterion gweithredu perthnasol.

7. ***Sut y bydd penderfyniadau'r DU a'r UE a wneir mewn meysydd datganoledig gan Lywodraeth y DU yn bodloni ymrwymiad y Fframwaith i gonsensws rhwng y llywodraethau?***

   Mae timau polisi a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos wrth baratoi ar gyfer pwyllgorau arbenigol, gweithgorau etc. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu ar eitemau agenda a awgrymir, a mewnbwn i'r safbwyntiau y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu harddel yn y cyfarfodydd. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i hwyluso’r broses pan fydd timau polisi yn dymuno mynychu'r cyfarfodydd.

8. ***Pa gyfleoedd y mae'r Fframwaith yn eu darparu ar gyfer mwy o gyfranogiad gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu polisi tramor y DU mewn materion datganoledig o fewn cwmpas y Fframwaith? Sut mae hyn yn wahanol i drefniadau pan oedd y DU yn aelod o Euratom?***

   Er nad yw'r Fframweithiau Cyffredin wedi'u cynllunio i ddylanwadu ar bolisi tramor, byddem yn disgwyl y bydd timau polisi yn mynnu buddiannau Cymru yn y meysydd hyn drwy grwpiau llywodraethu'r Fframwaith. Mae datblygu Fframweithiau wedi cynyddu'r cyfle i ryngweithio rhwng timau polisi perthnasol y pedair llywodraeth.

**Datrys anghydfodau**

9. ***Pa risgiau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi gyda'r dull hwn [dylid oedi camau gweithredu o dan anghydfod hyd nes y cânt eu datrys drwy'r mecanwaith datrys anghydfodau]?***

   Mae oedi unrhyw gamau gweithredu sy'n destun anghydfod yn rhan gytûn o'r mecanwaith datrys anghydfodau mewn fframweithiau. Rydym yn ystyried hyn fel dull synhwyrol o gadw uniondeb y system fframweithiau.

10. ***Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r Senedd am anghydfodau a godir drwy'r Fframwaith?***

    Byddaf yn rhoi gwybod i bwyllgorau priodol y Senedd yn ysgrifenedig os codir anghydfodau drwy'r Fframwaith.

**Tryloywder ac atebolrwydd**

11. ***Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am weithrediad parhaus y fframwaith?***

    Mae ymrwymiad i adrodd yn gyson ar Fframweithiau ar ôl eu cwblhau. Mae'r pedair llywodraeth yn cadarnhau'r manylion ar hyn o bryd.

    Fodd bynnag, y disgwyliad yw y bydd adroddiadau ar Fframweithiau yn ddogfennau cyhoeddus unwaith y cânt eu cymeradwyo gan Weinidogion portffolio a byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol.

    Ochr yn ochr ag anghydfodau a godwyd a phwyntiau adolygu, mae ymrwymiad hefyd i hysbysu'r Senedd am:

    - ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y Fframweithiau; a
    - cheisiadau am waharddiad o dan UKIMA.

12. ***Sut y bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses adolygu a diwygio ar gyfer y fframwaith?***

    Mae pwyntiau adolygu wedi'u trefnu ym mhob Fframwaith sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i'r Senedd a rhanddeiliaid gymryd rhan yn natblygiad ac esblygiad Fframweithiau.

    Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd y Fframwaith Sylweddau Ymbelydrol yn cael ei adolygu bob 12 mis. Gall unrhyw barti ddefnyddio trydydd partïon i'r Fframwaith er mwyn rhoi cyngor ar unrhyw adeg yn y broses. Gall hyn gynnwys gofyn am farn rhanddeiliaid perthnasol fel y bo'n briodol

    Os caiff newidiadau eu gwneud i'r Fframwaith, bydd y rhain yn cael eu hysbysu i bwyllgorau'r Senedd er mwyn iddynt gyflawni lefel y gwaith craffu y maent yn credu sy'n briodol ac yn angenrheidiol.

**System reoleiddio sylweddau ymbelydrol y DU**

13. ***Pa drefniadau llywodraethu sydd ar waith ar hyn o bryd i sicrhau effeithiolrwydd system reoleiddio sylweddau ymbelydrol y DU?***

    Ar hyn o bryd yn y DU, mae amrywiaeth o sefydliadau'n ymwneud â chynghori'r pedair llywodraeth ar ddatblygu a gweithredu polisi, a gorfodi gofynion rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys cyrff cyflawni'r llywodraeth, cyrff cynghori'r llywodraeth a rheoleiddwyr annibynnol. Mae'r sefydliadau hyn yn dod at ei gilydd mewn amrywiaeth o fforymau, er enghraifft y Grŵp Polisi Datgomisiynu a Strategaeth Niwclear, y Grŵp Polisi Sylweddau Ymbelydrol a'r Gweithgor Diogelwch Ymbelydrol.

14. ***A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau ehangach sy'n digwydd rhwng llywodraethau ar lywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol ar ôl gadael yr UE ac Euratom?***

    Mae'r DU yn parhau i gymryd rhan yn rheolaidd mewn ymgyrchoedd sicrwydd rhyngwladol, er enghraifft cenhadaeth Gwasanaeth Adolygu Rheoleiddio Rhyngwladol (IRRS) yr Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol (IAEA) .

Cyn i'r DU adael yr UE, roedd cynrychiolwyr Euratom o bryd i'w gilydd wedi archwilio a dilysu effeithiolrwydd systemau sy'n monitro allyriadau o safleoedd niwclear. Mae'r pedair llywodraeth yn cydweithio i ystyried opsiynau a threfniadau ar gyfer gwirio'r systemau hyn yn allanol.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/0612/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.irranca-davies@senedd.wales

3 Mawrth 2022

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Sancsiynau Sifil) 2022 a Rheoliadau Deddf Ifori 2018 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) 2022.**

Rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn eich gwneud yn ymwybodol fy mod i'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Sancsiynau Sifil) ar 16 Mawrth 2022. Bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym ar 6 Mehefin 2022.

Ceisiodd Victoria Prentis AS, y Gweinidog dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, am gytundeb i wneud y rheoliadau hyn a fydd yn gymwys i'r Deyrnas Unedig.

Mae Rheoliadau Gwaharddiadau Ifori (Sancsiynau Sifil) 2022 ("y Rheoliadau Gorfodi") yn cynnig darpariaeth fanwl ar gyfer gweithredu'r prosesau gorfodi o dan Ddeddf Ifori 2018 a bydd yn gymwys i'r DU gyfan.

Mae Rheoliadau Deddf Ifori (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) 2022 yn mynd gyda'r Rheoliadau Gorfodi. Bydd y rheoliadau hyn yn cychwyn y rhannau o'r Ddeddf sy'n weddill ar 6 Mehefin, pan fydd y gwaharddiad ar werthu ifori yn y DU yn cychwyn.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu dros Gymru mewn perthynas â materion cymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, gan fod safbwynt Llywodraeth Cymru ar fasnach ifori yn cyd-fynd â safbwynt DEFRA a gweinyddiaethau eraill y DU, rwy'n caniatáu'r ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn fy marn i yn dod â chysondeb i'r broses o gyflwyno gwaharddiad ar werthu ifori yn y DU.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Heb ganiatâd o'r fath, ni fyddai Cymru'n cyd-fynd â gweinyddiaethau eraill y DU o ran ei hymagwedd at wahardd gwerthiannau ifori. Gallai hyn leihau'r effeithiau cadarnhaol o wahardd gwerthiannau ifori ledled y DU a chynnal y galw am gynhyrchion sy'n cynnwys ifori gan gyfrannu at y bygythiad parhaol i boblogaethau byd-eang eliffantod, sy'n cael eu hela'n anghyfreithlon ar gyfer eu hifori.

Rwyf am anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er gwybodaeth.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/0612/22

Victoria Prentis MP
Minister of State for Farming, Fisheries and Food
Department for Environment Food and Rural Affairs

ps.victoria.prentis@defra.gov.uk

3 March 2022

Dear Victoria,

**The Ivory Prohibitions (Civil Sanctions) Regulations 2022 and The Ivory Act 2018 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) Regulations 2022**

Thank you for your letter of 14 January requesting formal consent for the laying of The Ivory Prohibitions (Civil Sanctions) Regulations 2022 (HAB030) and The Ivory Act 2018 (Commencement No. 2 and Transitional Provision) Regulations 2022 (HAB031).

Usually, it is the policy of the Welsh Government to legislate for Wales where powers lie with the Welsh Ministers. However, the Welsh Government’s position on prohibiting the sale of ivory, aligns with that of DEFRA Ministers, and I believe the proposed legislation will achieve consistent and effective measures throughout the United Kingdom. Therefore, I hereby give my consent on behalf of the Welsh Government for this Statutory Instrument to be laid.

I will notify the Senedd of my consent to these Regulations and I shall be grateful to be kept informed about the SI’s progress through Parliament.

As I am sure you will appreciate, should there be any material changes to this instrument this would render my consent void and would necessitate further consent being sought.

Regards,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein cyf/Our ref: **CX22-047**
Ty Cambria / Cambria House
29 Heol Casnewydd / 29 Newport Road
Caerdydd / Cardiff
Ebost/Email:
Clare.Pillman@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Clare.Pillman@naturalresourceswales.gov.uk
Ffôn/Phone:
0300 065 4453

By Email to; Llyr Gruffydd
Llyr.Gruffydd@senedd.wales

Dyddiad/Date: 2/03/2022

Annwyl Llŷr,

Yn ystod sesiwn graffu ddiweddar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gyda'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, gofynnodd Carolyn Thomas AS i ni beth oedd rôl CNC mewn perthynas â sicrhau fod cwlferi a ffosydd yn cael eu cadw'n glir.

Rydym yn sylweddoli y gall rolau a phwerau cysylltiedig â llifogydd ymddangos yn gymhleth. Yn ei hanfod fodd bynnag, mae gan CNC bwerau a dyma'r asiantaeth arweiniol pan yw'n fater o lifogydd o brif afonydd a'r môr. Mae gan Awdurdodau Lleol bwerau a hwy yw'r asiantaethau arweiniol o ran llifogydd o gyrsiau dŵr llai a dŵr daear. Y cwmnïau dŵr yw'r asiantaeth arweiniol o ran llifogydd sy'n gysylltiedig â charthffosiaeth. Mae'r trefniadau a'r cyfrifoldebau yn cael eu disgrifio yn Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru | GOV.WALES (gweler tudalen 17 ymlaen). Mae'n bwysig nodi fod pwerau CNC yn rhai caniataol ac nad ydynt yn ddyletswyddau statudol, ac y dylid eu defnyddio yn ôl disgresiwn yn seiliedig ar berygl llifogydd, yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol. Mae gan yr holl awdurdodau ddyletswydd i gydweithio â'i gilydd wrth ymarfer eu swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, sy'n bwysig o ystyried y gall llifogydd ddeillio o amrywiaeth o wahanol ffynonellau.

Yn ychwanegol at hyn, mae gan berchnogion tir gyfrifoldebau am y cyrsiau dŵr sy'n mynd drwy eu tir, gan gynnwys rhannau lle ceir cwlferi. Mae rhagor o wybodaeth am Hawliau a Chyfrifoldebau ar gael ar ein gwefan. Cyfrifoldeb y perchennog tir yw clirio unrhyw gyrsiau dŵr sydd ar neu islaw ei eiddo. Gall cyrff cyhoeddus fel CNC neu Awdurdodau Lleol fod yn berchennog tir mewn rhai achosion, ond yn aml mae perchnogaeth tir mewn dwylo preifat.

Mae pethau ychydig yn fwy cymhleth mewn Ardaloedd Draenio Mewnol. Ceir 11 o Ardaloedd Draenio Mewnol ledled Cymru, sy'n cynrychioli cyfran fechan iawn o Gymru sy'n gyfyngedig i rai ardaloedd isel. Mae'r Ardaloedd Draenio Mewnol yn gweithredu ac yn cynnal y systemau draenio, sy'n gallu cynnwys ffosydd a chwlferi, yn ardaloedd hyn.

Felly, i grynhoi, nid yw’n wir mai CNC sy’n gyfrifol am glirio pob cwlfer a ffos, a perchnogion tir sy’n bennaf gyfrifol am hynny. Mae gan CNC bwerau caniataol i ymgymryd â gwaith ar brif afonydd, ac mae’r un peth yn wir am awdurdodau lleol ar gyfer cyrsiau dŵr lleol.

Dymuniadau gorau



Clare Pillman
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
Chief Executive, Natural Resources Wales

Eitem 5.7

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Dawn Bowden AS
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip
Llywodraeth Cymru

Dyddiad | Date: 4 Mawrth 2022

Pwnc | Subject: Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru ac Ofcom

Annwyl Dawn,

Cafodd y llythyr a ysgrifennwyd gennych ar y cyd â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, mewn perthynas â'r adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru ac Ofcom, ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor hwn ar 18 Ionawr, i'w ystyried.

Trafododd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ystod ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2022. Nid oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau ar gynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n dymuno cyfleu eu barn y dylai rheoleiddwyr ym maes darlledu fod yn atebol i sefydliadau seneddol yn hytrach na'r Llywodraeth, a hynny er mwyn sicrhau annibyniaeth y drefn reoleiddio.

Diolch am y cyfle i adolygu'r ddogfen hon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ac at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
[drwy e-bost]

15 Chwefror 2022

Annwyl Mark

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Rhagfyr 2021 ynghylch defnydd Comisiwn y Senedd o'r acronym 'BAME'.

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref 2021, fe wnaeth swyddogion y Comisiwn ymgynghori â rhwydwaith cydraddoldeb Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol (REACH) y Comisiwn ynghylch yr hyn y mae'n ei ffafrio. Mynegodd aelodau'r rhwydwaith nifer o safbwyntiau, a'r hyn yr oedd y rhwydwaith yn ei ffafrio yn gyffredinol oedd cadw'r acronym BAME. O ganlyniad i'ch llythyr, mae'r rhwydwaith wedi gweithio gyda thîm Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn i ailedrych ar hyn.

Fe wnaeth Comisiwn y Senedd drafod y defnydd o'r acronym 'BAME' yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr. Trafododd y Comisiwn bapur a oedd yn nodi rhywfaint o'r ddadl ehangach ynghylch defnyddio'r acronym gan gydnabod ei bod yn anodd hoelio hanesion a diwylliannau cymhleth pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig mewn un ymadrodd neu acronym.

Cytunodd y Comisiynwyr y byddai'r Comisiwn yn:

a. Cydnabod cyd-destun fel sbardun allweddol i ddefnyddio terminoleg a dewis bod yn benodol wrth ddefnyddio terminoleg lle bynnag y mae hynny'n bosibl;

b. Os nad yw'n bosibl bod yn benodol, defnyddio'r term(au) cyfunol 'lleiafrif ethnig' a 'chymuned lleiafrifoedd ethnig' yn lle'r acronym a'r term cyfunol B.A.M.E.; ac

c. Adolygu'r defnydd o derminoleg yn rheolaidd a monitro trafodaethau mewnol ac allanol.

Yn ogystal, cytunwyd y dylai swyddogion y Comisiwn gynnig cwrdd â'r Aelodau hynny o'r Senedd sydd o gefndir ethnig lleiafrifol i drafod y mater ymhellach, ac y dylai'r wybodaeth yr oedd y

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Comisiynwyr wedi'i hystyried fod yn sail i sesiwn friffio ar gyfer Aelodau, gan ddechrau gyda chadeiryddion pwyllgorau.

Cytunodd y Comisiynwyr bod y canllawiau yn y papur yn cael eu cyhoeddi'n fewnol er mwyn helpu swyddogion y Comisiwn i ddrafftio dogfennau.

Bydd Fforwm y Cadeiryddion yn trafod yr eitem ddydd Iau 17 Chwefror 2022.

Fe wyddoch fod Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r Aelodau ymgysylltu â'r broses ymgynghori drwy'r Arolwg Ymgysylltu â'r Aelodau, sy'n fyw ar hyn o bryd. Mae nifer o'r Aelodau wedi dweud y byddent yn croesawu trafodaeth bellach gyda swyddogion y Comisiwn, ac mae hyn yn cael ei drefnu ar hyn o bryd. Yn yr un modd, pe byddai ]Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn credu y byddai sgwrs debyg yn ddefnyddiol, rhowch wybod i mi er mwyn i mi gael gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir

Manon Antoniazzi

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon